WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## yn Cynnwys Adroddiad ar Asesiad Corfforaethol 2014

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil

Cyhoeddwyd: Mehefin 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 318A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol sy'n cynnwys yr Asesiad Corfforaethol ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies, Gareth W. Lewis, Jeremy Evans, Justine Morgan a Katherine Simmons gyda chymorth Sara-Jane Byrne a Sophie Taylor o PricewaterhouseCoopers, dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith drwy ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff statudol a sefydlwyd at y pwrpas hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ynghyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiant â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn amcanu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardio adnoddau cyhoeddus, a darparu mewnwelediad a hyrwyddo gwelliannau yn y broses.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno ac argymhellion | 4 |
| Cyflwyniad | 7 |
| Adroddiad manwl | 9 |
| Mae'r Cygnor yn parhau i ddelio â heriau sylweddol o ran y gwasanaeth a heriau ariannol gyda chymorth cefnogaeth allanol | 9 |
| Mae'r cyngor wedi cymryd camau arwyddocaol ymlaen o ran defnyddio ei adnoddau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti a gallu er mwyn wynebu'r heriau sydd i ddod | 22 |
| Mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd yn parhau i fod yn anwadal | 28 |
| Gall hanes y Cyngor a'i gapasiti a'i allu liniaru effeithiolrwydd ei drefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn 2015-16 | 36 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 37 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil | 38 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad o berfformiad 2013-14 Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil | 40 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil 2013-14 | 42 |
| Atodiad 5 – Arolwg o Uwch Reolwyr | 44 |
| Atodiad 6 – Argymhellion adroddiad cenedlaethol 2014-15 | 46 |
| Atodiad 7 – Cydweledigaeth a blaenoriaethau strategol Cyngor Merthyr Tydfil a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol | 51 |
| Atodiad 8 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil | 52 |

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio i wella'r ffordd maent yn darparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau'r gwaith a wnaethpwyd ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a PricewaterhouseCoopers yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil (y Cyngor), ac mae hefyd yn manteisio ar waith yr arolygiaethau Cymreig perthnasol. Mae'r adroddiad yn crynhoi'r asesiadau a gynhaliwyd ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym Mai 2014, ac mae'n cynnwys canfyddiadau Asesiad Corfforaethol yr Archwilydd Cyffredinol, a gynhaliwyd ym Medi 2014. Gan ystyried yr holl ganfyddiadau hyn, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'n credu bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau neu beidio i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2015-16.

2 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn ddatganiad diffiniol o iechyd sefydliadol neu fel rhagfynegiad o lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn darparu barn ar y graddau y mae'r trefniadau presennol yn rhesymol gadarn o'r hyn y gellir ei weld o'r gwaith a wnaethpwyd.

3 Rydym eisiau gwybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei angen arnoch ac a yw'n hawdd ei deall. Gallwch rannu eich sylwadau â ni drwy e-bostio post@archwilio.cymru neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi casglu **y gall hanes y Cyngor a'i gapasiti a'i alluogrwydd liniaru effeithiolrwydd ei drefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn 2015-16**. Mae'r dyfarniad hwn yn adlewyrchu casgliad ei asesiad corfforaethol, sef bod **y Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol ac mae'n rhaid iddo barhau i fanteisio ar gymorth allanol os ydyw am gyflawni ei flaenoriaethau**.

5 Bu i'r tîm archwilio ganfod bod **y Cyngor yn parhau i ddelio â heriau sylweddol o ran y gwasanaeth a heriau ariannol gyda chymorth cefnogaeth allanol**:

a mae'r Cyngor wedi sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyda'i phartneriaid y mae'n eu cefnogi, drwy ei blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu nodi'n eglur;

b mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio'n effeithiol ar amcanion a rennir ac mae wedi darparu cyfleusterau gwell a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion;

c mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen o newid diwylliannol er mwyn cynorthwyo'r sefydliad i reoli a herio perfformiad yn fwy effeithiol;

ch mae'r Fframwaith Gwella Gwasanaethau yn arwain at hunanwerthuso mwy gwrthrychol, a thra bod craffu a herio mewnol yn cael ei ddatblygu, mae'r Cyngor yn parhau i elwa o gymorth allanol er mwyn gwella ei allu i wirioneddol herio perfformiad ariannol a pherfformiad y gwasanaeth; ac

d mae strwythurau llywodraethu cadarn wedi'u sefydlu gan fwyaf, ond mae yna wendidau o ran trefniadau diogelu a chwythu'r chwiban, ac nid yw rhai trefniadau eraill yn gweithio mor effeithiol ag y dylent.

6 Bu i ni hefyd weld bod **y Cyngor wedi cymryd camau arwyddocaol ymlaen o ran defnyddio ei adnoddau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti a galluogrwydd er mwyn wynebu'r heriau sydd i ddod**. Bu i ni ganfod:

a bod y Cyngor wedi gwella ei drefniadau llywodraethu ariannol ac mae'n monitro ac yn rheoli ei arian yn well, er ei fod yn elwa o, ac yn parhau i fod angen, cefnogaeth ychwanegol er mwyn gwella gallu aelodau a rheolwyr i wirioneddol herio perfformiad ariannol a pherfformiad y gwasanaeth;

b mae gan y Cyngor drefniadau rheoli asedau effeithiol sy'n blaenoriaethu cynnal lefelau priodol o dderbynebau cyfalaf a defnydd effeithlon o adeiladau, yn arbennig mewn perthynas ag effeithlonrwydd ynni;

c nid yw trefniadau'r Cyngor i reoli a defnyddio ei weithlu wedi bod yn effeithiol ac mae ganddo gynllun gweithredu i arwain gwelliant; a

ch mae trefniadau'r Cyngor a'i ddefnydd o dechnoleg a gwybodaeth yn cefnogi gwell gwasanaethau i ddinasyddion.

7 Yn olaf, bu i ni ganfod bod **cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd yn parhau i fod yn anwadal**. Bu i ni gasglu:

a Bod y Cyngor yn elwa o gefnogaeth gan y Bwrdd Adfer Addysg. Mae hyn yn creu effaith gadarnhaol ar arwain gwelliannau mewn rhai meysydd addysg allweddol, ond mae maint a chyflymder gwelliannau mewn cyrhaeddiad addysgol yn parhau i fod yn her sylweddol.

b Yn 2013-14, y gwariant ar wasanaethau cyhoeddus (am bob pen o'r boblogaeth) ym Merthyr Tydfil oedd y trydydd uchaf yng Nghymru. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod yr heriau ariannol y mae'n eu hwynebu, a chanlyniadau cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, yn golygu newidiadau ar bob lefel.

c Nid yw'r Cyngor wedi cyrraedd y targedau ailgylchu cenedlaethol, ond yn dilyn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru, mae'n peilota dull amgen o gasglu gwastraff.

ch Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd amgylcheddol ar lefel sy'n uwch na'r lefel gofynnol, ond mae'r cyfnod presennol o gynni ariannol yn her mewn perthynas â derbyn dyletswyddau statudol newydd sy'n gwarchod y cyhoedd a'r amgylchedd.

d Er bod y perfformiad cyffredinol yn erbyn dangosyddion cenedlaethol wedi gwella, ni lwyddodd y Cyngor i gyrraedd ei dargedau ac mae'n adrodd am gynnydd cymysg o ran cyflawni ei amcanion gwella.

dd Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol er mwyn mabwysiadu Datganiad yr Iaith Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu er mwyn cydymffurfio â Chynllun yr Iaith Gymraeg.

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

8 Gan ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol i ni beidio canfod pethau y gellid eu gwella. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gallu:

a cyflwyno cynigion ar gyfer gwella - os cyflwynir cynigion i'r Cyngor, buasem yn disgwyl iddo wneud rhywbeth ynglŷn â hwy a byddwn yn dilyn beth sy'n digwydd;

b cyflwyno argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os cyflwynir argymhelliad ffurfiol, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal archwiliad arbennig a chyhoeddi adroddiad a chyflwyno argymhellion; ac

ch argymell bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth i'r Cyngor neu'n ymyrryd mewn rhyw ffordd.

9 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud yr argymhellion ffurfiol canlynol er mwyn gwella:

| Argymhellion | |
|---|---|
| **A1** | Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn argymell bod y Cyngor, yn dilyn trafodaeth â Llywodraeth Cymru, yn parhau i sicrhau cymorth allanol priodol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei ddyletswydd statudol i ddarparu gwelliannau parhaus. |
| **A2** | Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu cymorth drwy'r Bwrdd Adfer Addysg a'i fod yn adolygu'r cymorth y mae'n ei roi i'r Cyngor yn gyffredinol. |

## Cyflwyniad

10 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol adrodd ar ba mor dda mae cynghorau Cymru, yr awdurdodau tân ac achub, a'r parciau cenedlaethol yn cynllunio i wella'r ffordd maent yn darparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi mwy o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur.

11 Yn 2013-14, bu i staff Swyddfa Archwilio Cymru gychwyn cylch pedair blynedd o asesu gwelliannau corfforaethol awdurdodau Cymru. Mae hynny'n golygu, yn ychwanegol at raglen o astudiaethau ac archwiliadau o welliannau yn nulliau'r Cyngor o gynllunio ac adrodd ar welliannau, bydd pob Cyngor yn derbyn asesiad corfforaethol manwl unwaith bob pedair blynedd. Yn ystod y blynyddoedd cyfamserol, byddwn yn tracio datblygiadau ac yn canolbwyntio mwy o waith asesu ar nifer o themâu allweddol a ddatblygwyd mewn trafodaeth â phob Cyngor.

12 Bu i ni gynnal prif waith maes ein Hasesiad Corfforaethol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil (y Cyngor) yn ystod Medi 2014, ac rydym wedi bod yn tracio cynnydd ers hynny. Mae'r adroddiad gwella blynyddol hwn yn cynnwys yr adroddiad ar Asesiad Corfforaethol, ac mae hefyd yn crynhoi'r adroddiadau rheoleiddiol a gyflwynwyd i'r Cyngor ers cyhoeddi'r adroddiad gwella blynyddol diwethaf ym Mai 2014. Er nad yw'r asesiad corfforaethol yn amcanu at ddarparu dadansoddiad cynhwysfawr o holl wasanaethau'r Cyngor, mae'n adrodd ar hanes perfformiad a chanlyniadau'r Cyngor yn ogystal â'r trefniadau allweddol sy'n hanfodol er mwyn atgyfnerthu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.

13 Bu i'r gwaith hwn gael ei wneud gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a PricewaterhouseCoopers ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau Cymru, Estyn (ar ran addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym gyda'n gilydd wedi llunio darlun o'r hyn y mae'r Cyngor yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n mynd ati i wneud hynny, a'r cynnydd a wnaethpwyd ganddo ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Yn olaf, gan ystyried hyn i gyd, mae'r adroddiad yn cofnodi casgliad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a fydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau neu beidio i sicrhau gwelliannau parhaus ar gyfer 2015-16.

14 Ni ddylid ystyried bod y casgliad hwn yn ddatganiad diffiniol o iechyd sefydliadol neu'n rhagfynegiad o lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn darparu barn ar y graddau y mae'r trefniadau presennol yn rhesymol gadarn o'r hyn y gellir ei weld o'r gwaith a wnaethpwyd.

15 Bu i'n gwaith maes ar gyfer yr asesiad corfforaethol ganolbwyntio ar y graddau mae'r trefniadau yn cyfrannu at ddarparu gwell perfformiad gwasanaeth a chanlyniadau i ddinasyddion. Roedd yr asesiad corfforaethol yn ceisio ateb y cwestiwn canlynol:
**'A yw'r Cyngor yn gallu cyflawni ei flaenoriaethau a gwell canlyniadau i ddinasyddion?'**

16 Mae’r Asesiad Corfforaethol yn ymdrin â’r canlynol:

a **Gweledigaeth a chyfeiriad strategol:**
‘A yw gweledigaeth a chyfeiriad strategol y Cyngor yn cefnogi gwelliant?’

b **Llywodraethu ac atebolrwydd:**
‘A yw trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd y Cyngor yn cefnogi proses benderfynu gadarn ac effeithiol?’

c **Defnyddio adnoddau:**
‘A yw’r Cyngor yn rheoli ai adnoddau yn effeithiol er mwyn cyflawni’r gwelliannau a gynlluniwyd o ran perfformiad a chanlyniadau?’

ch **Cydweithredu a phartneriaethau:**
‘A yw trefniadau cydweithredu a phartneru’r Cyngor yn gweithio’n effeithiol er mwyn cyflawni gwell perfformiad a chanlyniadau?’

d **Rheoli gwelliant:**
‘A yw’r Cyngor yn rheoli ei raglen wella yn effeithiol?’

dd **Perfformiad a chanlyniadau:**
‘A yw’r Cyngor yn dangos cynnydd o ran cyflawni’r gwelliannau a gynlluniwyd o ran perfformiad a chanlyniadau?’

17 Mae casgliadau’r adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a wnaethpwyd ac, oni nodir fel arall, mae’n adlewyrchu’r sefyllfa ar yr adeg y’u lluniwyd.

Adroddiad manwl

# Mae'r Cyngor yn parhau i ddelio â heriau sylweddol o ran y gwasanaeth a heriau ariannol gyda chymorth cefnogaeth allanol



## Mae'r Cyngor wedi sefydlu gweledigaeth ar y cyd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol gyda'i phartneriaid y mae'n eu cefnogi drwy ei blaenoriaethau corfforaethol sydd wedi eu nodi'n eglur

18 Mae'r Cyngor yn elwa o arweiniad gwleidyddol sefydlog ac ymroddedig y mae ei uchelgeisiau, ar y cyfan, yn cael eu rhannu ar draws yr holl grwpiau gwleidyddol. Mae yna ffocws cyffredin er mwyn gwella ansawdd gwasanaethau a chyfleusterau er lles dinasyddion Merthyr Tydfil.

19 Datblygwyd gweledigaeth a blaenoriaethau strategol y Cyngor ar y cyd â rhai ei bartneriaid ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) (gweler Atodiad 7), ac maent yn eu hategu. Mae'r Cyngor yn nodi ei weledigaeth yn ei Gynllun Gwella, yn ôl gofynion Mesur Llywodraeth Leol 2009 (y Mesur). Mae **Cynllun Corfforaethol 2013-17** y Cyngor (diweddarwyd ar gyfer 2014-15), yn cynnwys saith maes strategol blaenoriaethol a danategir gan fesuriadau llwyddiant penodol a gweithredoedd sydd i'w cyflawni. Mae gweledigaeth y Cyngor yn dangos ymrwymiad amlwg i wella'n barhaus.

20 Mae'r saith maes blaenoriaethol a nodir yn y Cynllun Corfforaethol, sy'n creu Amcanion Gwella'r Cyngor, yn ymdrin â'r themâu canlynol a'u hamcanion cysylltiedig:

a **Codi Safonau Cyrhaeddiad:** Erbyn 2017, rydym eisiau cyrraedd pwynt pan fo cyrhaeddiad plant a phobl ifanc ym Merthyr Tydfil ymhlith deg uchaf awdurdodau Cymru.

b **Cyflogadwyedd:** Erbyn 2017, rydym eisiau i'r ganran o oedolion sydd mewn oedran gweithio sydd â dim cymwysterau ym Merthyr Tydfil fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru, ac i'r ganran o oedolion gyda chymwysterau lefel 1 a 2 fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.

c **Datblygiad Economaidd:** Erbyn 2017, rydym eisiau gweld cynnydd mewn busnesau newydd a'r rhai sy'n parhau i fasnachu gan adlewyrchu sector busnes cystadleuol sy'n gryf a chystadleuol mewn marchnad fyd-eang gyfnewidiol.

ch **Ffyrdd o Fyw Egnïol:** Erbyn 2017, rydym eisiau gweld cynnydd parhaus mewn gweithgaredd corfforol ymysg holl breswylwyr Merthyr Tydfil, a chyfraniad tuag at well iechyd a lles.

d **Hyrwyddo Annibyniaeth:** Erbyn 2017, rydym eisiau gweld gwelliant graddol yng nghyfran y boblogaeth o oedolion all fwy yn annibynnol drwy eu cysylltu â gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar, a gostyngiad yn y gyfran na all fyw yn annibynnol

dd **Bodloni Anghenion Plant Agored i Niwed:** Erbyn 2017, rydym eisiau gweld gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar effeithiol yn cefnogi mwy o blant yn y cyfnod cynnar cyn i broblemau waethygu, a bod plant angen ymyrraeth neu warchodaeth gan wasanaethau cymdeithasol, neu cyn bod angen i'r awdurdod ofalu amdanynt.

e **Amgylchedd Cynaliadwy:** Erbyn 2017, rydym eisiau gweld gwelliant ym meysydd Newid yn yr Hinsawdd, a Datblygiad Trefol Cynaliadwy fel bod preswylwyr yn byw mewn cartrefi sydd mewn cyflwr da ac yn ynni effeithlon, ac mewn cymuned sy'n lân a thaclus

21 Mae'r Cyngor wedi sefydlu fframwaith strategol a chanllawiau ar ffurf strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd ar y cyd rhwng Byrddau Gwasanaethau Lleol Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf. Mae Canolfan Ymgysylltu Cwm Taf yn amcanu at ddarparu siop un stop ar gyfer yr holl weithgaredd ymgysylltu ac ymgynghori ar draws Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf ac at annog yr holl bartneriaid i weithio gyda'i gilydd a chyfuno adnoddau wrth ymgysylltu neu ymgynghori. Mae'r ganolfan yn darparu lle i aelodau'r cyhoedd weld yr holl ymgynghori ac ymgysylltu sy'n digwydd ar draws Merthyr Tydfil a Rhondda Cynon Taf, gan alluogi dinasyddion i gael llais a gweld adborth ynglŷn ag ymgynghoriadau.

22 Mae'r Cyngor wedi ymestyn y ffordd y mae'n ymgysylltu â dinasyddion er mwyn ceisio ymgysylltu ag amrywiaeth eang o wahanol grwpiau. Bu i ymarferiad ymgynghori'r Cyngor ar gyfer y Gyllideb a Cham 3 Rhaglen Effeithlonrwydd y Cyngor ar gyfer 2015-16 ddefnyddio ystod amrywiol o ddulliau yn cynnwys arolwg ar-lein, taflenni, sesiynau galw i mewn a sioeau teithiol, sesiynau byw ar gyfryngau cymdeithasol (Facebook a Twitter) ac ymgysylltu uniongyrchol â defnyddwyr gwasanaeth. Darparwyd dadansoddiad cynhwysfawr o ganlyniadau'r ymarferiad hwn i'r cabinet er mwyn hysbysu'r broses o bennu cyllideb ar gyfer 2015-16.

## Mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn gweithio'n effeithiol ar amcanion a rennir ac mae wedi darparu cyfleusterau gwell a chanlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion

23 Drwy adeiladu ar hanes helaeth o weithio mewn partneriaeth, mae'r Cyngor yn parhau i ddangos ei barodrwydd i ddatblygu dulliau rhanbarthol ac archwilio trefniadau gweithio a chaffael ar y cyd. Mae'r Cyngor wedi sefydlu nifer o wahanol fathau o bartneriaethau a chydweithrediadau, yn cynnwys rhai statudol ac anstatudol. Mae'r rhain yn cynnwys trefniadau â Chynghorau cyfagos, Heddlu De Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Bwrdd Iechyd prifysgol Cwm Taf, y Trydydd Sector, Prifysgol De Cymru a Choleg Merthyr, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig a'r sector preifat. Mae yna aliniad amlwg rhwng blaenoriaethau'r Cynllun Integredig Sengl (CIS), a'r rhai a geir yng nghynlluniau strategol y Cyngor a'i bartneriaid. Mae'r partneriaid yn gwerthfawrogi dull cynhwysol y Cyngor ac yn mwynhau perthynas waith effeithiol sy'n deillio o weledigaeth a phwrpas a rennir.

24 Mae cydweithredu wedi gwella gallu'r Cyngor i gyflawni, ac mae wedi sicrhau buddsoddiad sylweddol drwy weithio mewn partneriaeth. Mae'r Cyngor eisoes wedi cael llwyddiant wrth sicrhau arian gan yr Undeb Ewropeaidd (UE) gyda dros £46 miliwn wedi ei gaffael rhwng 2007-13 o'r Gronfa Gymdeithasol Ewropeaidd (CGE) a ffrydiau ariannu Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (CDRhE). Mae'r Cyngor wedi bod yn rhagweithiol wrth ganfod ffrydiau cyllid yr UE ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys meysydd amgen a newydd o'u cymharu â'r rhai a ddefnyddir ar hyn o bryd. Mae yna risgiau yn gysylltiedig â chynaliadwyedd y ffrydiau cyllid yma, ond

mae'r Cyngor wedi ceisio lliniaru'r rhain drwy geisio partneriaid Ewropeaidd er mwyn sicrhau cymhwysedd ar gyfer rowndiau nesaf cronfeydd yr UE yn 2020. Mae hyn yn cynnwys gwneud cais i Horizon 2020, Rhaglen Ymchwil ac Arloesedd yr UE sydd â bron i €80 biliwn ar gael am gyfnod o saith mlynedd (2014 i 2020).

25 Mae enghreifftiau o brosiectau cyfalaf mawr, sydd wedi eu cynnal mewn cydweithrediad, sy'n darparu gwell cyfleusterau ac sy'n cefnogi canlyniadau cadarnhaol i ddinasyddion Merthyr Tydfil yn cynnwys Adfywio canol y Dref a'r Tŷ Coch, Coleg Merthyr Tydfil (coleg trydyddol Prifysgol De Cymru), Parc Iechyd Keir Hardie a Gorsaf Heddlu newydd gyda dalfa a chyfleuster ymholi cerdded i mewn cyhoeddus yn y Ganolfan Ddinesig ar gyfer gwasanaethau'r heddlu.

26 Ar wahân i'r prosiectau cyfalaf mawr yma, mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at ystod o bartneriaethau strategol rhanbarthol, er enghraifft Bwrdd Cydweithredu Rhanbarthol Cwm Taf (BCRhCT). Mae BCRhCT yn dod â Byrddau Gwasanaethau Lleol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tydfil at ei gilydd ar gyfer cydweithredu a chaniatáu gwell mynediad i gyllid. Esiampl o hyn yw'r cyllid ar gyfer gofal canolraddol ar gyfer pedwar prosiect sy'n helpu i greu capasiti mewn perthynas â gofal cymdeithasol a lles, sy'n arwain at recriwtio mwy o weithwyr cymdeithasol ar gyfer helpu pobl sy'n agored i niwed fyw'n annibynnol yn eu cartrefi.

27 Mae nifer o Bartneriaethau Strategol yn canolbwyntio ar feysydd cyfrifoldeb a gweithgaredd penodol megis Bwrdd Diogelu Plant Lleol Cwm Taf, Bwrdd Rhanbarthau Dinas, CGGCRh (Consortiwm Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol Rhanbarthol), Consortiwm Canol De Cymru (Gwella Ysgolion), Gwasanaeth Troseddu Ieuenctid Cwm Taf, a Phartneriaeth Dysgu Cymunedol Oedolion Merthyr Tydfil.

28 Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLl) yn gerbyd allweddol o ran dod â phartneriaid at ei gilydd er mwyn cyflawni blaenoriaethau a rennir. Mae'r aelodaeth ar lefel briodol ar gyfer gwneud penderfyniadau ac mae'n cynnwys Cadeirydd Annibynnol a chynrychiolydd o **Fforwm Ieuenctid Bwrdeistref Merthyr Tydfil Gyfan**. Mae aelodau'r BGLl yn gwerthfawrogi cynrychiolaeth o bobl ifanc yn fawr, a cheir ymrwymiad i efelychu hyn ar y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

29 Mae'r Cyngor yn datblygu ei drefniadau er mwyn rheoli ei brosiectau partneriaeth. Wrth archwilio cydweithredu arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried y cysylltiadau rhwng amcanion y prosiect a'r CIS a blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i wella'i ffordd o werthuso partneriaethau, er enghraifft drwy asesu'r risg a'r posibilrwydd o ddyblygu gweithgareddau yn well cyn cytuno ar brosiectau partneriaeth. Hefyd, oherwydd cyfyngiadau amser ffynonellau cyllid, nid roddir ystyriaeth lawn i staff o ran costau neu gynllunio olyniaeth pan fo cyllid penodol yn dod i ben. Mae'r Cyngor wedi datblygu ac yn bwriadu mabwysiadu fframwaith rheoli risg partneriaethau, ac yn ddiweddar mae hwn wedi bod yn destun cynllun peilot gan ystod o wasanaethau er mwyn profi ei effeithiolrwydd.

30 Er gwaetha'r ansicrwydd ynglŷn â ffurfweddiad llywodraeth leol yng Nghymru, mae gan y Cyngor weledigaeth eglur o'i rôl yn y dyfodol mewn partneriaethau a threfniadau cydweithredol, gan gydnabod na all mwyach ddarparu pob gwasanaeth yn y modd a wnaethpwyd yn y gorffennol. Rydym yn deall bod y Cyngor wrthi'n cynnal trafodaethau â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar lefel strategol gyda'r bwriad o ddatblygu'r trefniadau cydweithredu presennol a dynodi cyfleoedd i liflinio prosesau a systemau a rhannu capasiti.

## Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen o newid diwylliannol er mwyn cynorthwyo'r sefydliad i reoli a herio perfformiad yn fwy effeithiol

31 Mae'r Cyngor yn cynnal rhaglen o newid diwylliannol arwyddocaol, gyda'r bwriad o greu amgylchedd o ddisgwyliadau uchel, atebolrwydd uchel, tryloywder uchel a bai isel. Rhoddir mwy o bwyslais ar wella perfformiad staff a gwasanaethau ac mae'r Cyngor wedi mabwysiadu set o werthoedd ac ymddygiadau sy'n canolbwyntio ar y cwsmer. Sbardunwyd y newid diwylliant hwn gan nifer o ffactorau - Archwiliad Estyn negyddol, Argymhelliad Statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac adborth o arolwg bodlonrwydd cyflogeion a chyfres o weithdai adolygu diwylliant a gynhaliwyd gan y Cyngor.

32 Bu i'r arolwg bodlonrwydd cyflogeion a'r arolwg o ddiwylliant ddynodi pedair thema gyffredin; roedd y staff yn falch o weithio i'r Cyngor ond roedd ganddynt flaenoriaethau anghyson ac aneglur ac roeddent yn teimlo eu bod yn gweithio mewn seilos; nid oedd arweinyddiaeth yn weladwy na chydlynol ac roedd diffyg atebolrwydd; roedd rheoli perfformiad unigol yn anghyson ac ni ymdriniwyd â pherfformiad ac ymddygiad gwael, ac; roedd diffyg ymddiriedaeth ac onestrwydd yn y sefydliad. Fel ymateb i'r adborth hwn, bu i'r Cyngor ddynodi tri argymhelliad trosfwaol sy'n canolbwyntio ar arweinyddiaeth: ffyrdd o weithio ac ymddygiadau, cefnogaeth unigol, a datblygiad.

33 Ffurfiwyd fforwm staff yn Rhagfyr 2013 ac mae'n cyfarfod yn fisol er mwyn darparu platfform ar gyfer casglu adborth cyflogeion a dynodi problemau y mae angen delio â hwy yn y Cyngor. Mae'r fforwm wedi ymgymryd â gwaith blaenorol y Cabinet a grwpiau ffocws staff er mwyn creu set o werthoedd craidd ac ymddygiadau y dylai'r holl gyflogeion eu dilyn a'u harddangos. Mae'r gwerthoedd craidd a'r ymddygiadau hyn wedi'u hymgorffori yn y Cynllun Corfforaethol a'r broses werthuso 1-i-1 newydd er, ar hyn o bryd, nid yw'n eglur pa mor bell yn y sefydliad mae'r broses wedi treiddio iddo. Arwydd o'r cynnydd y mae'r Cyngor yn ei wneud ar ei daith ddatblygu ddiwylliannol yw'r hyn a geir yn yr ymatebion i'n harolwg o uwch reolwyr y Cyngor (cyfradd ymateb o 81 y cant) a gynhaliwyd fel rhan o'n Hasesiad Corfforaethol (gweler Atodiad 5).

34 Mae'r ymatebion yn dangos bod rhaglen newid diwylliant a threfniadau cynllunio corfforaethol y Cyngor yn darparu ffocws ar ganlyniadau.

a Bu i 92.8 y cant o'r ymatebwyr roi ateb cadarnhaol i'r datganiad "Rwyf yn deall yn eglur beth yw'r canlyniadau y mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni".

b Bu i 85.6 y cant o'r ymatebwyr roi ateb cadarnhaol i'r datganiad "Mae cyflawni canlyniadau a ddymunir wedi'i integreiddio'n dda i gynllunio gwasanaethau".

c Bu i 47 y cant o'r ymatebwyr roi ateb cadarnhaol i'r datganiad "Mae systemau gwerthuso ffurfiol y Cyngor yn sicrhau bod gan uwch reolwyr y sgiliau priodol ar gyfer eu swyddi." Ond roedd yr ymatebion yn dangos bod yna dipyn o ffordd i fynd nes bod y system werthuso perfformiad newydd yn cael ei gweithredu'n gyffredinol ac effeithiol.

35 Mae aelodau'r fforwm yn teimlo bod y grŵp yn gwndid effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth drwy'r sefydliad yn ogystal â darparu adborth tuag i fyny, ac maent yn credu bod diwylliant y sefydliad yn gwella yn ogystal ag ymrwymiad cryf i'r 'Ffordd ym Merthyr'.

## Mae'r Fframwaith Gwella Gwasanaethau yn arwain at hunanwerthuso mwy gwrthrychol, a thra bod craffu a herio mewnol yn cael ei ddatblygu, mae'r Cyngor yn parhau i elwa o gymorth allanol er mwyn gwella ei allu i wirioneddol herio perfformiad ariannol a pherfformiad y gwasanaeth

36 Yn y gorffennol rydym wedi bod yn feirniadol o'r graddau y mae cynlluniau gwella blynyddol wedi cyfathrebu blaenoriaethau'r Cyngor yn effeithiol i ddinasyddion. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i wella ansawdd y cynllun allweddol hwn, ac mae **Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2013-17** (diweddarwyd ar gyfer 2014-15) yn ddogfen eglur a hygyrch sy'n nodi llawer mwy eglur nag o'r blaen beth yw blaenoriaethau'r Cyngor, beth mae'n ceisio ei gyflawni a sut y gellid mesur a gwerthuso ei lwyddiant. Bu i ni gyhoeddi tystysgrif yng Ngorffennaf 2014 oedd yn cadarnhau bod y Cynllun Corfforaethol yn cyflawni dyletswyddau'r Cyngor dan y Mesur (gweler Atodiad 2).

37 Bu i ni ddarparu adborth i'r Cyngor ynglŷn â sut y gellid gwella mwy ar y Cynllun. Roedd hyn yn cynnwys egluro'n fwy eglur pam fod y blaenoriaethau a ddewiswyd yn bwysig i'r Cyngor a pharhau i ddatblygu mesuriadau canlyniadau mwy cadarn fel y gall fonitro effaith ei weithredoedd yn well er mwyn cyflawni ei flaenoriaethau. Roedd **Cynllun Corfforaethol 2013-17** yn brin o wybodaeth ynglŷn â sut y byddai blaenoriaethau'n cael eu cyflawni, er bod hyn yn cael ei gynnwys yn y **Cynllun Cyflawni** ategol. Bu i ni ganfod bod ansawdd cynlluniau gwella lefel gwasanaethau yn amrywiol, ac eto, roedd gwybodaeth am gyflenwedd yn gyfyngedig. Roedd gwybodaeth am gynllunio gweithlu yn arbennig o wan.

38 Mae'r Cyngor wedi datblygu mwy ar ei Fframwaith Gwella Gwasanaethau (FfGG), sy'n ddull o reoli perfformiad a hunanasesu symlach ac sy'n canolbwyntio fwy ar ganlyniadau, ac mae'n rhagweld y bydd hwn yn arwain at newid sylweddol yn y cynlluniau lefel is yma wrth iddo gael ei weithredu. Mae'r FfGG yn nodi cydrannau allweddol proses gynllunio gwelliannau'r Cyngor, o'r Cynllun Integredig Sengl i werthuso perfformiad unigol. Mae hefyd yn amlinellu'r mecanweithiau sydd wedi'u sefydlu er mwyn sicrhau atebolrwydd. Mae hunanwerthuso yn rhan greiddiol

o'r fframwaith, ac os caiff ei ddilyn yn drwyadl, dylai'r FfGG ddarparu platfform cryf er mwyn helpu i arwain gwelliant. Mae'n gynhwysfawr ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd integreiddio ystod o wybodaeth allweddol yn cynnwys risg, cynllunio gweithlu a chyllid.

39 Mae'r wybodaeth allweddol yn cael ei chadw ar gardiau adrodd, a gyflwynwyd pan ddiddymwyd system berfformio genedlaethol Ffynnon gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cardiau adrodd yn cael eu defnyddio i adrodd ar berfformiad i'r Cabinet a Chraffu. Bu i'n hadolygiad o sampl o'r cardiau adrodd ganfod bod safon y cardiau cychwynnol, sef y rhai ar gyfer cefnogi'r Cynllun Integredig Sengl er enghraifft, yn amrywiol. Fodd bynnag, mae safon a chysondeb yn gwella ac roedd y rhai a ddatblygwyd yn dilyn hynny ar gyfer y Meysydd Blaenoriaethol Corfforaethol yn gryfach.

40 Cymhwyswyd fframwaith y Cyngor i brosiectau partneriaeth sy'n gweithio ar flaenoriaethau'r CIS. Mae partneriaid wedi croesawu'r newid hwn, gan nodi bod fformat y cerdyn adrodd Atebolrwydd ar Sail Canlyniadau (ASC) wedi cynyddu atebolrwydd ac wedi gwella gallu'r BGLl i fonitro perfformiad. Oherwydd hyn, mae'r dull o graffu ar a herio prosiectau gan bartneriaid yn gwella, ond nid yw wedi cyrraedd safon sy'n ddigon cadarn eto. Er enghraifft, nid yw'r perthnasoedd rhwng cyllid a pherfformiad prosiectau wedi'u cysylltu'n ddigonol eto er mwyn galluogi'r Cyngor a'i bartneriaid i werthuso'n glir a yw prosiectau mewn partneriaeth yn darparu gwerth am arian.

41 Mae hunanwerthuso yn rhan greiddiol o'r fframwaith, a sefydlwyd mecanweithiau er mwyn hwyluso hyn, sef cyfarfodydd trywydd ymholi a sesiynau herio. Mae'r dull o hunanwerthuso yn datblygu, gan adeiladu ar hunanwerthuso'r awdurdod cyfan a ddigwyddodd am y tro cyntaf y llynedd. Ceisiwyd adborth am y broses hon gan Benaethiaid Gwasanaethau ac Aelodau, ac mae gwersi wedi'u dysgu a mireiniwyd y dull. Hefyd, mae'r Cyngor wedi ystyried profiadau cynghorau eraill, yn arbennig Cyngor Sir Ddinbych, a thrwy recriwtio capasiti a gwybodaeth fewnol ychwanegol.

42 Sefydlwyd rhaglen flynyddol o sesiynau unigol herio gwasanaethau hyd at Awst 2015. Pwrpas y sesiynau hyn yw asesu a chraffu ar berfformiad gwasanaethau. Mae fy staff wedi arsylwi dwy o'r sesiynau cynnar hyn, sef y rhai oedd yn herio'r gwasanaethau Cyllid ac AD. Roedd yna ymrwymiad amlwg gan yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr, a bu i'r ddau fynychu'r sesiynau a gyrru'r broses yn ei blaen. Defnyddiwyd amrywiaeth o wybodaeth hunanwerthuso, yn cynnwys canlyniadau safon gwasanaethau, darparu a chyflawni gwasanaethau, ac arweinyddiaeth a rheoli er mwyn hysbysu'r sesiynau, a chafwyd cydbwysedd priodol rhwng herio a chefnogi yn ogystal â ffocws clir ar wella. Fodd bynnag, ar ddiwedd y sesiynau herio hyn, nid oedd fy staff yn sicr beth oedd y materion allweddol a ddynodwyd ynglŷn â pherfformiad na'r camau, os o gwbl, oedd i'w dilyn o ganlyniad i hynny.

43 Er bod y Cyngor yn ystyried bod yn bwysig cynnal cysondeb ar draws y sesiynau herio, bydd angen i'r fformat a'r cwmpas esblygu wrth i'r Cyngor ddysgu o'r sesiynau a gwblhawyd. Mae'n rhaid i'r Cyngor gadw cofnod cynhwysfawr o'r camau fydd yn deillio o'r sesiynau, nid yn unig ar gyfer monitro parhaus yr hyn y cytunir arno, ond hefyd er mwyn helpu i benderfynu ar amlder y cyfarfodydd herio.

44 Mae craffu a pherfformiad yn datblygu wrth i'r dull o ddefnyddio cardiau adrodd ar berfformiad y Cyngor gael ei wreiddio, a phob tro yr ailadroddir elfennau'r Fframwaith Gwella Gwasanaethau. Mae'r aelodau'n ymgysylltu'n dda â'r broses er bod rhai elfennau'n peri ansicrwydd, megis symud oddi wrth dargedau perfformiad penodol at 'ffenestri' perfformiad mwy deinamig. Mae'r Cyngor yn adolygu sut y gall craffu herio perfformiad yn fwy effeithiol.

45 Yn yr amgylchedd o 'ddisgwyliadau uchel, atebolrwydd uchel' sy'n amlygu ei hun yn gynyddol yn y Cyngor, mae perfformiad gwasanaethau a pherfformiad corfforaethol yn cael eu herio mewn nifer o ffyrdd, nid drwy graffu yn unig. Er enghraifft, ar y Bwrdd Rheoli Gwasanaethau a'r Bwrdd Gweithredol, caiff perfformiad ei herio'n briodol a bydd swyddogion yn atebol. O ganlyniad i hyn, mae gan aelodau ac uwch swyddogion well dealltwriaeth o lawer ar y cyd o flaenoriaethau corfforaethol a chryfderau a gwendidau'r gwasanaethau, ac mae hyn yn hyrwyddo gwell gweledEdd a thrwy hynny well cydweithredu rhwng gwasanaethau.

46 Mae'r Cyngor yn cydnabod ei fod wedi wynebu, a'i fod yn parhau i ddelio â heriau strategol arwyddocaol, yn arbennig mewn perthynas â chyrhaeddiad academaidd isel ei bobl ifanc a darparu ei wasanaethau o fewn cyfyngiadau ariannol cynyddol lymach. Yn y meysydd hyn, mae'r trefniadau herio a chraffu yn fwy trylwyr. Ers Mehefin 2013, mae'r Bwrdd Adfer Addysg, sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol allanol profiadol uwch ym myd addysg, wedi gweithio'n effeithiol â'r Cyngor, gan sicrhau bod aelodau etholedig a swyddogion yn atebol am eu gweithredoedd gwella ac am y dystiolaeth o'u heffaith.

47 Ym meysydd cynllunio ariannol strategol a monitro, bu i'r Cyngor sefydlu trefniadau craffu a llywodraethu mwy cydnerth y llynedd ar ffurf Bwrdd Rhaglen Trawsnewid (TPB) a Bwrdd Cyllid. Yn dilyn hyn, gofynnodd y Cyngor i Lywodraeth Cymru ddarparu pecyn cymorth er mwyn rhoi iddo bersbectif annibynnol ar gadernid cynlluniau a phrosesau ariannol y Cyngor a dilysiant allanol o hynny, ac er mwyn asesu rhaglen gwaith trawsnewid y Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn addas i'r diben. Bu i'r pecyn cymorth ddod i rym ar 30 Mehefin 2014, ac mae'n cael ei ddarparu gan ddau gynghorydd proffesiynol allanol uwch a phrofiadol.

48 Mae'r Fframwaith Gwella Gwasanaethau yn dal i gael ei gwreiddio, ac mae'n rhy gynnar i asesu ei effaith a'i ddylanwad yn llawn. Fodd bynnag, mae ganddo'r potensial i ddarparu'r platfform sydd ei angen ar y Cyngor i graffu ar a rheoli perfformiad yn fwy effeithiol ac arwain gwelliannau. Mae rhai buddion amlwg eisoes i'w gweld, megis hunanwerthuso mwy gwrthrychol yn seiliedig ar gronfa o dystiolaeth ystadegol sy'n fwy cadarn a chyflawn. Bydd y flwyddyn nesaf yn

allweddol o ran penderfynu a yw'r buddion hyn yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hysbysu craffu a herio a dargedir, ac a yw'n arwain yn gyson at gamau gwella sy'n effeithio'n gadarnhaol iawn ar berfformiad.

49 Yn y cyfamser, rydym yn credu bod y Cyngor yn elwa o, ac yn parhau i fod angen y cymorth allanol hwn i wella gallu aelodau etholedig ac uwch reolwyr i herio perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau'n gadarn. Mewn perthynas â'r Bwrdd Cyllid rydym yn awgrymu, ac mae'r Cyngor yn cytuno, y byddai'n elwa o ragor o fewnbwn gwrthrychol proffesiynol mewn perthynas â'r gwasanaethau penodol y mae'n atebol amdanynt. Mae'r Cyngor yn trafod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sut y gallai gaffael y capasiti ychwanegol hwn.

50 Llynedd, bu i ni adrodd bod dulliau'r Cyngor o adrodd a gwerthuso'i berfformiad yn gwella. Yn gyffredinol, mae'r Cyngor yn darparu gwerthusiad eglur i ddinasyddion o'r cynnydd y mae'n ei wneud tuag at gyflawni ei amcanion gwella ac effaith ei amcanion gwella ar ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion. Unwaith eto eleni, bu i ni farnu bod asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn 2013-14, a gyhoeddwyd yn Hydref 2014, wedi cydymffurfio â gofynion y Mesur. Bu i ni gyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau ein barn yn Nhachwedd 2014 (gweler Atodiad 3).

## Mae strwythurau llywodraethu cadarn wedi'u sefydlu gan mwyaf, ond mae yna wendidau o ran trefniadau diogelu a chwythu'r chwiban, ac nid yw rhai trefniadau eraill yn gweithio mor effeithiol ag y dylent

### Yn gyffredinol mae gan y Cyngor strwythurau a threfniadau cadarn wedi'u sefydlu er mwyn cefnogi llywodraethu da, ond nid yw'r trefniadau hyn wedi'u hadlewyrchu'n eglur yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol

51 Mae swyddogaethau a chyfrifoldebau uwch swyddogion ac aelodau yn cael eu disgrifio a'u nodi'n fanwl yng nghyfansoddiad y Cyngor a dogfennau ategol. Rhoddir copi o'r cyfansoddiad i bob aelod ac uwch swyddog pan y'u penodir, a chaiff ei adnewyddu pan fo'r cyfansoddiad yn cael ei ddiweddaru. Y tro diwethaf i'r Swyddog Monitro gyflwyno cyfansoddiad wedi'i ei ddiweddaru i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth oedd ym mis Rhagfyr 2014. Yn dilyn hyn, diweddarwyd y fersiwn gyhoeddus ar wefan y Cyngor hefyd.

52 Mae'r cyfansoddiad yn eglur ynghylch yr ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan aelodau etholedig a swyddogion. Cefnogir y disgwyliad hwn gan Bwyllgor Safonau a gan gefnogaeth ychwanegol gan y swyddog Monitro. Yn gyffredinol mae aelodau a swyddogion yn ymddwyn yn unol â'r codau ymddygiad priodol, a bu iddynt fynegi i ni deimlad o'u dealltwriaeth o'r cyfrifoldebau perthnasol sy'n gysylltiedig â'u swyddogaethau priodol a'r ffordd y'u grymusir ganddynt.

53 Mae'r Arweinydd yn deall yn eglur mai aelodau'r Cabinet sy'n atebol yn y pen draw am gyflawni blaenoriaethau'r Cyngor. Mae cyfathrebu rhwng grwpiau yn eglur a thryloyw, ac fe'i cyfoethogir oherwydd maint bychan y Cyngor, ac hefyd drwy sicrhau bod yna orgyffwrdd priodol o ran aelodaeth o grwpiau llywodraethu allweddol, megis y Bwrdd Cyllid a'r Bwrdd Trawsnewid.

54 Mae'r perthnasoedd a welwyd rhwng aelodau a swyddogion yn dangos eu bod yn ymddiriedus ac adeiladol. Mae aelodau'r cabinet, ac aelodau'n gyffredinol yn cael cyfleoedd i gwestiynu Penaethiaid Gwasanaethau a rheolwyr ac i herio perfformiad y gwasanaethau. Er bod rhai o'r prosesau hyn yn anffurfiol, mae'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr ar y cyd yn arwain newid o ran diwylliant. Mae hyn yn annog amgylchedd ble mae swyddogion yn teimlo'n ddiogel wrth ddatgelu perfformiad gwael a cheisio cymorth i helpu datrys materion ynglŷn â pherfformiad.

55 Mae strwythurau llywodraethu'r Cyngor yn briodol a syml, er bod y strwythur sefydliadol corfforaethol wedi bod yn destun newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, o ganlyniad yn rhannol i newidiadau ymysg uwch swyddogion. O ganlyniad i hyn bu rhai swyddi uwch swyddogion yn swyddi dros dro. Datryswyd y sefyllfa yn y Cyngor Llawn ar 11 Mawrth 2015 pan gymeradwywyd strwythur diwygiedig a therfynol. Mae'r strwythur newydd yn cael ei weithredu ar unwaith.

56 Mae'r Cyngor wedi sefydlu grŵp swyddogion er mwyn adolygu a pharatoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) er nad yw aelodau etholedig yn rhan o'r adolygiad nes bod y ddogfen yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo. Mae'r DLlB yn cydymffurfio â gofynion Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth, er ein bod yn credu y gellid gwella ei gynnwys. Rhoesom adborth i'r Cyngor y llynedd ynglŷn â chyfleoedd penodol i wella'r DLlB a'r defnydd a wneir ohono yn y Cyngor, ond cynnydd cyfyngedig a wnaed yn unig hyd yma.

## Mae craffu a herio yn datblygu ond mae'n amrywiol o ran ei gadernid a'i ffocws, ac mae ei effaith yn aneglur

57 Mae craffu a herio yn datblygu ond mae'n parhau i fod yn amrywiol gyda phwyllgorau cryf a gwan. Mae cadeirydd cryf yn allweddol er mwyn sicrhau bod craffu'n cael ei reoli'n effeithiol, ac mae enghreifftiau da yn amlwg, fodd bynnag ceir enghreifftiau gwannach hefyd pan fo craffu'n parhau i ddibynnu gormod ar arweiniad swyddogion. Ceir enghreifftiau pan fo'r cyngor wedi defnyddio craffu cyn penderfynu yn effeithiol, a dylid ystyried ymestyn defnyddio hynny er mwyn atgyfnerthu mwy ar safon penderfyniadau allweddol.

58 Yn gyffredinol mae cynnwys adroddiadau craffu yn briodol, er bod y Cyngor yn gweithio i sicrhau ei fod yn rhoi'r wybodaeth gywir i'r aelodau gan ofalu nad yw'r adroddiadau'n rhy faith. Er bod y cymorth craffu yn dda a'i fod yn cael ei werthfawrogi gan yr aelodau craffu, nid yw cofnodion y cyfarfodydd craffu yn ddigon manwl. Oherwydd hynny mae'n anodd deall, o'r cofnodion yn unig, beth yw sail resymegol yr argymhellion a wneir a'r canlyniadau a gyflawnir gan bwyllgorau craffu. Fodd bynnag, mae'r tîm cymorth craffu yn cadw log gweithredoedd yn annibynnol er mwyn sicrhau nad yw'r argymhellion a'r gweithredoedd craffu yn cael eu colli.

59 Mae hyfforddiant i aelodau craffu wedi ei sefydlu, ac fe'i cefnogwyd gan Y Ganolfan Craffu Cyhoeddus (GCC) er mwyn datblygu rhaglen hyfforddi i helpu i arwain cysondeb a gwella craffu yn gyffredinol. Gwahoddwyd yr holl Aelodau i ymgymryd ag asesiad anghenion hyfforddiant, er na dderbyniwyd ymateb llawn i hyn. Hyd yma mae'r hyfforddiant wedi cynnwys sgiliau cadeirio, craffu ar gyllid a chanfod ffeithiau.

## Mae rheoli risg yn rhan greiddiol o Fframwaith Gwella Gwasanaethau'r Cyngor gyda ffocws ar liniaru risgiau sy'n debygol o effeithio ar hyfywedd ariannol a chanlyniadau i ddinasyddion

60 Mae trefniadau rheoli risg wedi'u gwreiddio'n dda yn y sefydliad oherwydd fe'u sefydlwyd ers nifer o flynyddoedd. Bu i'r Cyngor fabwysiadu ei ddull o reoli risg o ganlyniad i Raglen Cymru ar Gyfer Gwella, ac mae wedi parhau i ddatblygu ei ddulliau ers hynny. Cymeradwywyd y fersiwn ddiweddaraf o'r Polisi Rheoli Risg gan y Cyngor llawn yng Ngorffennaf 2014. Mae gan y Cyngor Swyddog Rheoli Risg penodedig, a'r Dirprwy Arweinydd yw'r hyrwyddwr rheoli risg. Mae hyn yn helpu i hyrwyddo pwysigrwydd rheoli risg ar bob lefel o arweinyddiaeth.

61 Dyrennir pob risg corfforaethol i aelod portffolio er mwyn sicrhau y ceir eglurder o ran cyfrifoldeb ac ymwybyddiaeth ar bob lefel yn y Cyngor. Mae cyflwyniadau i'r Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet yn digwydd yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Mae'r rhai sy'n gyfrifol am reoli risgiau corfforaethol yn cael eu galw'n aml i gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio er mwyn cyflwyno adborth ynglŷn â'r camau a gymerir i liniaru'r risgiau hyn. Rheoli risg sy'n hysbysu'r cynllun archwilio mewnol a sefydlir ar gyfer y flwyddyn, a bob blwyddyn bydd yr archwilio mewnol yn canolbwyntio ar nifer o risgiau corfforaethol fel rhan o'u gwaith archwilio.

62 Mae'r Cyngor wedi adolygu a rhesymoli'r risgiau a gynhwysir yn ei gofrestr o risgiau corfforaethol drwy gyfres o weithdai, a thrwy integreiddio proses hunanwerthuso'r Fframwaith Gwella Gwasanaethau. Yn hytrach na risgiau cyffredinol, mae'r gofrestr bellach yn cynnwys y risgiau hynny sydd fwyaf arwyddocaol o ran hyfywedd ariannol y Cyngor a sicrhau'r canlyniadau gorau i'w ddinasyddion. Mae'r gofrestr risgiau yn destun adolygiad rheolaidd gan y Pwyllgor Archwilio.

63 Mae Pwyllgor Archwilio'r Cyngor wedi canolbwyntio ar faterion archwilio ariannol, yn bennaf oherwydd capasiti cyfyngedig Archwilio Mewnol i gynnal ystod a nifer priodol o adolygiadau gwerth am arian. Mae'r Cyngor wedi recriwtio dau aelod staff newydd er mwyn helpu i ddatrys problemau capasiti Archwilio Mewnol, ond mae'n annhebygol y bydd hyn yn creu effaith yn syth oherwydd bod angen hyfforddi'r unigolion hyn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn rhagweithiol, ac mae'r pwyllgor yn canolbwyntio ar y materion sydd gerbron heb lithro i wleidyddiaeth bleidiol.

## Mae yna rai meysydd gwan yn nhrefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant, ac mae'r Cyngor yn ymdrin â hyn

64 Rhwng Mawrth a Mai 2014, bu i ni gwblhau adolygiad ym mhob cyngor o'u trefniadau i gefnogi diogelu plant. Roedd y gwaith hefyd yn cynnwys adolygiad o drefniadau chwythu'r chwiban y Cyngor. Yn ogystal â chyfweld â staff a chynghorwyr allweddol a darllen dogfennau perthnasol, bu i ni gynnal arolwg ar-lein ar gyfer aelodau etholedig, uwch reolwyr, a staff y gwasanaethau addysg a hamdden er mwyn profi trefniadau pob cyngor.

65 Rydym wedi adrodd ar ganlyniadau'r gwaith hwn ar wahân. I grynhoi, bu i ni ganfod:

- a bod y Cyngor wedi sefydlu trefniadau llywodraethu a chraffu eglur ar gyfer rheoli ei gyfrifoldebau am ddiogelu plant, ond mae diffyg Polisi Diogelu Corfforaethol penodol i danategu ei benderfyniadau yn wendid;
- b ychydig o dystiolaeth a geir bod meysydd gwasanaeth eraill, ac eithrio Gwasanaethau Cyhoeddus ac Addysg, yn gwbl weithredol o ran diogelu;
- c roedd cyfran y rhai a ymatebodd i'r arolwg oedd yn ymwybodol o bwy yw Swyddog Dynodedig y Cyngor ar gyfer Amddiffyn Plant yn uwch na chyfartaledd ein harolwg, er bod llai o ymatebwyr yn ymwybodol o bwy yw Cynghorydd arweiniol y Cyngor ar gyfer amddiffyn plant;
- ch mae'r Cyngor yn cymhwyso trefniadau rheoli perfformiad diogelu drwy gydol y flwyddyn sy'n arwain at gyhoeddi asesiad o berfformiad diwedd blwyddyn, er y bu i swyddogion y Cyngor ac aelodau etholedig gydnabod bod angen gwella safon herio perfformiad diogelu wrth Graffu;
- d nid oes dim tystiolaeth y cynhelir hyfforddiant diogelu ar draws yr holl feysydd gwasanaeth, a cheir cyfran sylweddol is na'r cyfartaledd o ymatebwyr i'r arolwg yn adrodd eu bod wedi derbyn hyfforddiant yn ddiweddar; ac
- dd mae'r Cyngor wedi sicrhau ei hun ei fod yn cydymffurfio â gofynion diogelu data.

## Mae yna le i wella polisi, proses a hyfforddiant chwythu'r chwiban y Cyngor, ac i godi ymwybyddiaeth o drefniadau chwythu'r chwiban ar draws y Cyngor

66 Rhwng Mawrth a Mai 2014, bu i ni gwblhau adolygiad ym mhob cyngor o'u trefniadau chwythu'r chwiban. I grynhoi, bu i ni ganfod:

- a bod y Cyngor wedi creu polisi chwythu'r chwiban sydd wedi ei strwythuro'n dda ac wedi ei ysgrifennu'n eglur, ond mae'n bodoli'n unig fel rhan o'r Cyfansoddiad, ac nid oedd wedi ei ddiweddaru i gydymffurfio â darpariaethau Deddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (ond rhoddwyd sylw i hyn wedyn wrth ddiweddaru'r Cyfansoddiad, ac fe adroddwyd ar hynny i'r Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr 2014);

b cyfeirir at chwythu'r chwiban mewn dogfennau y tu allan i'r polisi ei hun, ond mae yna le i roi mwy o sylw a chodi ymwybyddiaeth o'r polisi a'r trefniadau cyffredinol;

c hyd yma nid yw cyflogeion wedi cael hyfforddiant penodol ar chwythu'r chwiban, ac nid yw'r Cyngor wedi gwneud dim i wirio lefel ymwybyddiaeth o chwythu'r chwiban ymysg y staff;

ch nid yw gwybodaeth am lwyth achos yn cael ei chofnodi mewn ffordd ffurfiol, ganolog ac nid oes adroddiad ar lwyth achos yn bodoli; a

d nid yw trefniadau, themâu, tueddiadau a chanlyniadau chwythu'r chwiban yn destun craffu a herio gan aelodau.

## Mae'r cyngor wedi cymryd camau arwyddocaol ymlaen o ran defnyddio ei adnoddau ond mae angen iddo sicrhau bod ganddo ddigon o gapasiti a gallu er mwyn wynebu'r heriau sydd i ddod

### Mae'r Cyngor wedi gwella ei drefniadau llywodraethu ariannol ac mae'n monitro a rheoli ei gyllid yn well, er ei fod yn manteisio ar gefnogaeth ychwanegol i wella capasiti aelodau a rheolwyr er mwyn herio perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaeth yn gadarn, ac yn parhau i fod angen y gefnogaeth hon

67 Mae Cynghorau'n rheoli eu cyllidebau mewn amgylchiadau economaidd heriol mewn cyd-destun o alw cynyddol am wasanaethau. Mae'n rhaid rheoli pwysau cost ochr yn ochr â phwysau galw am wasanaeth sylweddol sy'n berthnasol, er enghraifft, i effaith poblogaeth sy'n heneiddio ar wasanaethau.

68 Yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2014, adroddais am anawsterau a wynebodd y Cyngor wrth reoli ei gyllideb refeniw dros y blynyddoedd diwethaf a'r effaith ddilynol andwyol ar Gronfeydd Cyffredinol a Chronfeydd wedi'u Clustnodi'r Cyngor. Bryd hynny, roedd y Cyngor yn dal i ragweld gorwariant cyllid sylweddol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14. Roedd y gorwariant yn bennaf oherwydd anweddolrwydd ym mhenawdau cyllideb gofal cymdeithasol (e.e. plant sydd mewn gofal) a gorwario ar gostau teithio o'r cartref i'r ysgol. Fel mae'n digwydd, ym mis Gorffennaf 2014, adroddodd y Cyngor am warged refeniw cyffredinol o £21,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-14. Fodd bynnag, roedd cyflawni'r safle cytbwys hwn yn golygu bod angen cyfraniad heb ei gynllunio o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi o £760,000 ynghyd a defnyddio gwarged i'r gyllideb o £551,000 ar gronfa gasglu treth cyngor.

69 Gan gydnabod yr angen pwysig am drefniant ariannol mwy cadarn ac ail-ddylunio gwasanaeth, mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau llywodraethu ariannol newydd ar waith. Ym mis Mawrth 2014, creodd y Cyngor Fwrdd Cyllideb gyda chylch gwaith i ddarparu sicrwydd o ran effeithiolrwydd ei weithdrefnau rheoli ariannol ac i sefydlu atebolrwydd cyllid cynyddol. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn flynyddol i archwilio a herio alldro refeniw cyllideb sydd wedi'i ragamcanu gan wasanaethau.

70 Yn ogystal â chyflwyno ei wasanaethau presennol o fewn y gyllideb, mae angen i'r Cyngor roi sylw i ddiffygion cyllideb sydd wedi'u rhagamcanu dros y blynyddoedd ariannol sydd i ddod trwy gynllunio effeithlonrwydd ac ail-ddylunio gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn amcangyfrif yn ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ei fod angen diogelu gostyngiadau cyllideb cylchol o tua £5 miliwn pob blwyddyn ariannol dros y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2018. Er mwyn gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn mae wedi datblygu rhaglenni a phrosiectau arbed arian, ac mae'n parhau i ddatblygu'r rhain. Mae cyflwyniad y rhaglenni a'r prosiectau hyn wedi'u llywodraethu'n awr gan y Bwrdd Rhaglen Drawsnewid (TPB). Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y TPB ym mis Mehefin 2014 ac mae wedi cyfarfod yn fisol ers hynny. Ei rôl yw cefnogi a monitro'r broses o gyflwyno'r rhaglen drawsnewid a'r arbedion ariannol sydd wedi'u rhagamcanu, ac i herio gwasanaethau i ddatblygu dulliau eraill o wireddu unrhyw arbedion a nodwyd nad ydynt yn cael eu gwireddu.

71 Mae aelodau'r Bwrdd Cyllideb (sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Arweinydd) a'r Bwrdd Rhaglen Drawsnewid (sy'n cael ei gadeirio gan Arweinydd y Portffolio ar Drawsnewid) yn cynnwys Arweinydd y Cyngor ac Aelodau Cabinet dethol, ynghyd â'r Prif Weithredwr a swyddogion uwch dethol.

72 Wrth gydnabod y sialensiau ariannol y mae'n eu hwynebu ymhellach, ceisiodd y Cyngor gefnogaeth annibynnol gan Lywodraeth Cymru ym mis Mehefin 2014. Dechreuwyd ar becyn cefnogaeth ffurfiol ar 30 Mehefin 2014, ac mae'n cael ei gynnig gan ddau ymgynghorydd proffesiynol profiadol. Ei fwriad cyffredinol yw darparu safbwynt annibynnol, a dilysiad allanol, ar ba mor gadarn yw prosesau a chynlluniau ariannol y Cyngor ac asesu a oes gan y Cyngor y capasiti a'r gallu i annog y gwelliant angenrheidiol heb gefnogaeth allanol.

73 Er mwyn atgyfnerthu ei drefniadau gosod cyllideb ymhellach mae'r Cyngor wedi datblygu proses Adolygu Cyllideb a Gwasanaeth (SBR), er mwyn bod yn sail i'w gyllideb ar gyfer 2015-16. Diben yr SBR yw gweithio gyda rheolwyr ar draws y Cyngor wrth flaenoriaethu swyddogaethau gwasanaeth a sefydlu cynigion arbed arian pellach. Yn ogystal ag adnabod a herio pwysau cost mewn gwasanaeth a meysydd blaenoriaethol corfforaethol, er enghraifft i fodloni'r galw cynyddol a/neu ofynion statudol newydd, mae her yr SBR yn cynnwys ystyried canlyniadau lleihau darpariaeth y gwasanaeth neu gael gwared â'r gwasanaeth yn gyfan gwbl. Bydd holl wasanaethau'r Cyngor yn destun i'r adolygiad hwn.

74 O gofio'r trefniadau newydd hyn mae'n rhaid i ni ystyried, yn gyffredinol, bod gan y Cyngor nifer o weithdrefnau, prosesau, systemau, a strwythurau llywodraethau ar waith sy'n angenrheidiol i annog newid a sicrhau ei fod yn bodloni'r sialensiau ariannol. Fodd bynnag, mae rhai yn fentrau eithaf newydd a thasg allweddol i'r Cyngor yw sicrhau eu bod yn gweithio, ac yn parhau i weithio'n effeithiol.

75 Mae'r Cyngor yn barod wedi cyflawni rhai canlyniadau allweddol cadarnhaol:

a Ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol 2014-15, er bod adroddiad monitro cyllideb y chwarter cyntaf (fel ar 30 Mehefin 2014) yn rhagamcanu gorwariant o £641,000, mae'r adroddiad cyfatebol ar 31 Rhagfyr 2014 yn adrodd am warged cyllideb net wedi'i ragamcanu o £190,000. Mae'r Cyngor yn ystyried bod y rhagamcaniad ariannol cyffredinol hwn yn well o ganlyniad i gyflwyno'r cynlluniau adfer penodol i Gyfarwyddiaeth, ac mae'n fesur clir o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ei Fwrdd Cyllideb a'r Bwrdd Rhaglen Trawsnewid.

b Ar 25 Chwefror, 2015 cymeradwyodd y Cyngor ei Gyllideb Refeniw ar gyfer 2015-16 (gan ymgorffori cynnydd o 4.5 y cant mewn Treth Cyngor) sy'n dynodi'r gofynion gwariant ychwanegol 'anochel' sydd i'w hariannu, a sut y gellir cyflawni'r rhain trwy ostyngiadau cyllideb (a nodwyd trwy SBR), a'u cefnogi gan gyfeiriad cyfalafu o £888,000[1].

76 Serch hynny, mae rhai gwendidau yn parhau i fod yn nhrefniadau ariannol y Cyngor, ac mae graddfa'r sialensiau ariannol ar ôl 2015-16 yn sylweddol:

a mae problemau capasiti o fewn yr adran gyllid ac o fewn archwiliad mewnol, ac mae hyn o bosibl yn cyfyngu ar effeithiolrwydd y cynllunio, rheoli ac adolygu ariannol strategol, o ystyried y peryglon ariannol mwy sy'n wynebu'r Cyngor;

1 Ar 30 Ionawr 2015, derbyniodd y Cyngor gymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru am gyfeiriad cyfalaf o £888,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2015-16 i helpu gyda chost diwygio'r gwasanaeth. Bydd hyn yn caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio derbyniadau cyfalaf (elw o werthu asedau) er mwyn ariannu cost colli swyddi ac felly'n lleihau'r baich ariannol ar y gyllideb refeniw.

b tra mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn gyffredinol yn addas i'r diben, mae'r Cyngor angen datblygu gweledigaeth tymor hir a strategaeth sy'n cydweddu ar gyfer dylunio gwasanaeth amgen fel fframwaith i ddatblygu'r newidiadau radical i gyflwyno gwasanaeth sy'n hanfodol er mwyn adlewyrchu'r gostyngiadau a ddisgwylir yng nghyllidebau llywodraeth leol;

c mae'r Cyngor yn monitro gwariant y gyllideb yn effeithiol ond mae'r lefel o graffu a herio pwysau cyllideb a nodwyd gan wasanaethau (er enghraifft Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheoli Gwastraff) yn amrywiol, fel mae safon y perfformiad a'r wybodaeth am gost sy'n cael ei ddefnyddio i hwyluso craffu a herio effeithiol;

ch mae'r cynlluniau arbed cyfredol yn canolbwyntio'n bennaf ar leihau cost yn hytrach nag effeithiolrwydd cost a gwerth am arian, ac mae'r arbedion pellach sydd eu hangen yn y flwyddyn (£5 miliwn y flwyddyn) yn 2016-17 a thu hwnt i'w diffinio eto; ac

d ychydig yn unig o hyblygrwydd mae cronfeydd defnyddiadwy cyffredinol yn eu cynnig i gynnal cyllideb gytbwys os nad yw cynlluniau arbed yn cael eu cyflawni neu os oes llithriad sylweddol ar y gyllideb, neu i gefnogi unrhyw fentrau 'buddsoddi i arbed.'

77 O gydbwyso'r canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan y Cyngor gyda'r gwendidau a'r sialensiau sydd eto i gael sylw, ystyriwn fod y Cyngor angen cefnogaeth allanol ychwanegol i helpu i gydlynu a darparu ei raglen trawsnewid, ac i wella capasiti aelodau ac uwch reolwyr i herio perfformiad gwasanaeth a pherfformiad ariannol yn gadarn.

78 Mae Llythyr Archwiliad Blynyddol y Cyngor (gweler Atodiad 4), a gyhoeddwyd ar gyfer ac ar ran yr Archwiliwr Penodedig ym mis Tachwedd 2014, yn nodi fod:

a y Cyngor wedi cydymffurfio â'i gyfrifoldeb mewn perthynas ag adrodd ariannol a defnyddio adnoddau yn ystod 2013-14; a bod

b yr Archwiliwr Penodedig yn fodlon fod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i ddiogelu cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau (yn amodol ar y meysydd a amlygwyd yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn lle mae effeithiolrwydd y trefniadau hyn eto i'w harddangos neu lle gellir gwneud gwelliannau).

## Mae gan y Cyngor drefniadau rheoli asedau effeithiol sy'n rhoi blaenoriaeth i gynnal lefelau priodol o dderbynebau cyfalaf a'r defnydd effeithiol o adeiladau, yn enwedig o ran effeithiolrwydd egni

79 Mae gan y Cyngor broses adolygu adeiladau ar waith sy'n ei alluogi i ystyried popeth o'i eiddo ac ystyried beth y gellir ei werthu er mwyn codi derbynebau cyfalaf. Bydd ganddynt dargedau ar gyfer lefelau derbynneb cyfalaf yn y cynllun corfforaethol ac mae hyn yn arbennig o bwysig gan eu bod yn derbyn nifer o grantiau Ewropeaidd mawr ar gyfer gwaith cyfalaf, ac mae angen iddynt allu profi y gallant gyfateb hyn o gronfeydd y Cyngor.

80 Mae gweithgor rheoli ased ar waith fel bod penderfyniadau ar ddefnyddio asedau yn cael eu gwneud yn ganolog yn hytrach na gan adrannau unigol. Hefyd, mae bwrdd cydweithio rhanbarthol wedi'i sefydlu (grŵp rheoli asedau Cwm Taf) sy'n caniatáu i benderfyniadau ar ddefnyddio asedau gael eu gwneud ar sail ranbarthol. Er enghraifft, mae'r Cyngor wedi caniatáu i'r heddlu ddefnyddio rhai o'u hadeiladau, ac mae hyn wedi galluogi'r heddlu i adael un o'u swyddfeydd oedd yn cael ei danddefnyddio.

81 Hefyd, mae strategaeth swyddfa ar waith sy'n caniatáu i'r Cyngor sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli ar y sail fwyaf priodol. Er enghraifft, caniataodd y gwaith dan y strategaeth hon iddynt wagio Tŷ Kier Hardy, swyddfa ar brydles ddrud, ac adleoli gweithwyr i Uned 5. Mae hyn wedi creu arbediad o tua 20 y cant ar ei gostau swyddfa.

82 Mae grŵp rheoli asedau corfforaethol wedi'i sefydlu ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r holl adrannau. Mae'r Cabinet yn derbyn adroddiad rheoli asedau blynyddol. Yn ogystal â hynny, mae gan yr adrannau sy'n dal y mwyaf o eiddo gynlluniau rheoli asedau gwasanaeth sy'n bwydo'r cynllun rheoli asedau corfforaethol.

83 Mae cydymffurfio â materion egni a deddfwriaeth iechyd a diogelwch wedi bod yn ffocws allweddol. Problem allweddol a nodwyd oedd y diffyg data sydd ar gael ym maes defnyddio egni. Felly mae'r Cyngor wedi buddsoddi mewn meddalwedd penodol sy'n ei alluogi i ddal data perthnasol ar ddefnydd egni, ac mae hyn wedi bod yn ddefnyddiol wrth fonitro a gwneud gwelliannau.

84 Mae'r tîm rheoli ystadau canolog yn adrodd am berthynas waith dda gyda'r rheolwyr adeiladau, a chyhoeddir cylchlythyrau rheolaidd yn rhoi'r newyddion diweddaraf ar ddeddfwriaeth a chyngor ar arbed egni.

85 Mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried trosglwyddo asedau cymunedol, ac mae strategaeth ar waith sy'n caniatáu i'r Cyngor asesu capasiti sefydliad y gymuned i reoli'r asedau a'r gwasanaeth yn dilyn y trosglwyddiad.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor i reoli a defnyddio ei weithlu wedi bod yn effeithiol ac mae ganddo gynllun gweithredu ar waith i annog gwelliant

86 Roedd y Cyngor yn ymwybodol fod ganddo rai problemau perfformiad sylweddol o fewn y Gwasanaeth Adnoddau Dynol, ac yn ystod haf 2014 cynhaliwyd adolygiad mewnol o'r gwasanaeth gyda chefnogaeth gweithiwr proffesiynol allanol ym maes Adnoddau Dynol. Wrth bennu ei amserlen ar gyfer gwasanaethau fyddai'n rhan o'r Broses Herio Gwasanaethau, rhoddodd y Cyngor flaenoriaeth i'r Gwasanaeth Adnoddau Dynol o ganlyniad i'r problemau perfformiad a nodwyd.

87 Yn dilyn yr adolygiadau hyn, mae Adnoddau Dynol wedi derbyn adborth ac wedi'i roi ar waith i greu Cynllun Gweithredu Adolygiad clir gyda rhaglen gysylltiedig o waith i annog gwelliant. Mae'r adolygiadau hefyd wedi arwain at greu ystod eang o ddogfennau cadarnhaol a phrosesau megis y Siarter Adnoddau Dynol, Desg Gymorth Adnoddau Dynol, Cynllun Gweithlu Strategol 2014-17, y broses werthuso 1-i-1, a'r Cynllun Gweithredu Adolygiad Adnoddau Dynol ei hun. Yn ddiweddar, roedd y Gwasanaeth Adnoddau Dynol yn destun Proses Herio i ddiweddaru, gan roi'r cyfle i'r Cyngor werthuso'r cynnydd sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth.

88 Bydd y gwasanaeth Adnoddau Dynol yn destun ailstrwythuro, ond mae'n aneglur ar hyn o bryd sut fydd y strwythur newydd yn edrych. Mae'r Cyngor angen Gwasanaeth Adnoddau Dynol a fydd yn gweithredu fel partner busnes strategol i gynorthwyo wrth annog a sefydlu newid cyfundrefnol.

89 Trwy waith y Fforwm Staff, mae'r Cyngor wedi creu set o ymddygiadau a gwerthoedd craidd i helpu i annog newid diwylliannol yn y sefydliad. Y mecanwaith allweddol ar gyfer cyfathrebu a sefydlu'r ymddygiadau a'r gwerthoedd craidd hyn yw'r broses werthuso 1-i-1 newydd mae Adnoddau Dynol wedi'i datblygu. Mae'n aneglur ar hyn o bryd pa mor bell i lawr y sefydliad mae'r broses hon wedi cyrraedd ac nid oes unrhyw adroddiadau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd i fonitro cyflawniad. Mae Adnoddau Dynol yn ymwybodol bod angen rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i reolwyr er mwyn gallu rheoli perfformiad ac ymddygiad unigol pobl yn gyson ac yn effeithiol, ac mae yn cymryd y camau cyntaf tuag at ddatblygu cynlluniau i gyflwyno'r hyfforddiant gofynnol.

## Mae trefniadau a defnydd y Cyngor o dechnoleg a gwybodaeth yn cefnogi gwasanaethau gwell i ddinasyddion

90 Mae gan y Cyngor strategaeth technoleg a gwybodaeth glir, sy'n cysylltu'n dda â gyrwyr cenedlaethol ac agenda gwella'r Cyngor ei hun. Mae gan y Cyngor record dda o gyflwyno prosiectau TG, gyda rheoli prosiect cadarn a dogfennaeth dda.

91 Mae gan y Cyngor hefyd ymagwedd dda tuag at reoli gwybodaeth gyda gwarchodaeth briodol ar waith. Mae'r Cyngor wedi derbyn Safon Diogelwch 27001 y Sefydliad Safonau Rhyngwladol, ac mae'n parhau i gael ei achredu yn erbyn y meini prawf hyn. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn gweithio tuag at gyflawni fersiwn diwygiedig 2013 o'r safon. Mae Perchennog Gwybodaeth Risg Uwch y Cyngor yn derbyn gwybodaeth dda am faterion yn ymwneud â gwybodaeth ac yn dilyn hyfforddiant, mae'n parhau i wneud penderfyniadau clir a gwrthrychol mewn perthynas â'r risgiau sy'n wynebu ased gwybodaeth y Cyngor.

92 Mae canolfan ddiwygiedig gwasanaeth cwsmeriaid y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o dechnoleg a gwybodaeth i arddangos ei allu'n dda. Gan gydnabod cyfyngiadau ei wefan bresennol, mae'r Cyngor yn bwriadu adolygu ei bresenoldeb ar y we. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno nifer mwy o ffyrdd y gallai dinasyddion ymgysylltu â'r Cyngor yn electronig. Bydd hyn yn helpu i leihau costau trafod.

93 Tîm technoleg eithaf bach sydd gan y Cyngor i ddarparu ei gynlluniau technoleg a gwybodaeth. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn monitro perfformiad gwasanaeth gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau wedi'u meincnodi sy'n ei helpu i barhau i ffocysu a darparu ei record.

## Mae cynnydd y Cyngor o ran cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd yn parhau i fod yn anwadal

94 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn canolbwyntio ar berfformiad gwasanaethau'r Cyngor. Rydym yn darparu trosolwg o berfformiad yn 2013-14 yn ogystal ag asesiad mwy manwl o'r cynnydd yn erbyn detholiad o amcanion gwella'r Cyngor. Lle bo hynny'n bosibl, mae'r gwerthusiadau hyn yn defnyddio gwybodaeth sydd yn fwy diweddar na data 2013-14. Rydym hefyd yn cynnwys crynodeb o Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2013-14, a gynhyrchwyd gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), canfyddiadau ymweliad monitro diweddaraf Estyn â'r Cyngor, ac asesiad Comisiynydd y Gymraeg o gynnydd ym Merthyr Tydfil.

### Mae'r Cyngor yn manteisio ar gefnogaeth gan y Bwrdd Adfer Addysg. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar annog gwelliant mewn rhai meysydd addysg allweddol ond mae maint a chyflymder gwella cyflawniad addysgol yn parhau i fod yn sialens sylweddol

95 Adroddais eisoes bod y Gweinidog Addysg a Sgiliau wedi tynnu cyfrifoldeb y Cyngor dros addysg yn ôl ym mis Chwefror 2013 yn dilyn canfyddiadau andwyol arolwg Estyn o wasanaethau plant a phobl ifanc a gafwyd ym mis Tachwedd 2012. Wedi hynny, ym mis Mehefin 2013, sefydlodd y Gweinidog Fwrdd Adfer (y Bwrdd) gyda rôl i sicrhau bod holl swyddogaethau addysg y Cyngor yn cael eu cynnal i safon ddigonol. Mae'r trefniadau hyn yn parhau i fod yn weithredol.

96 Er mwyn cyflawni gwelliannau yn ei wasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc, cynhyrchodd y Cyngor gynllun gweithredu priodol fanwl ar ôl yr arolwg a oedd yn cynnwys camau cynyddol glir i gyflawni'r gwelliant angenrheidiol. Cafodd y cynllun gweithredu ei gymeradwyo gan aelodau etholedig, y Prif Weithredwr, a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol, a chytunwyd arno gyda'r Bwrdd Adfer. Roeddent i gyd yn cydnabod yr angen am ddiwygio arferion gweithio'r awdurdod yn sylfaenol er mwyn cael gwared â rhwystrau i gynnydd a gwella cynllunio a rheoli perfformiad.

97 Arsylwyd cyfarfod y Bwrdd Adfer yn ystod y cyfnod o gynnal yr Asesiad Corfforaethol ym mis Medi 2014. Yn seiliedig ar ein harsylwadau, rydym yn cytuno â'r casgliad blaenorol a nodwyd gan Estyn bod 'y Bwrdd Adfer yn dal y Cyngor yn atebol yn dda trwy nodi trywyddion ymholi'n rheolaidd y mae'n eu dilyn yn drylwyr, gan ddal aelodau etholedig a swyddogion yn atebol am y gwaith a thystiolaeth o'i effaith. Mae hyn yn arwain at weithio a ffocws mwy llym, adrodd yn gliriach, ac atebolrwydd sy'n fwy tryloyw.'

98 Fodd bynnag mae'n glir, nid yn unig o ganfyddiadau dilynol Estyn, ond hefyd o hunanwerthusiad diweddaraf y Cyngor o gynnydd yn erbyn y Cynllun Corfforaethol, bod angen gwaith pellach i wthio cyflymder gwella mewn canlyniadau addysgol. Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2015, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad yn darparu newyddion diweddaraf Chwarter 3 am gynnydd yn erbyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mewn perthynas â'i flaenoriaeth i Godi Safonau Cyflawniad, anfoddhaol yw gwerthusiad cyffredinol presennol y Cyngor o'r canlyniad hwn. Mae hyn oherwydd bod canran sylweddol o'r dangosyddion yn y chwartel isaf o holl awdurdodau Cymru. Bu tuedd o wella cadarnhaol yn y ffigyrau, fodd bynnag

nid yw'r gwelliannau wedi gallu symud yr awdurdod o'r chwartel isaf eto. Ar gyfer nifer o ddangosyddion, mae'r awdurdod wedi cau'r bwlch â chanolrif Cymru (yn sylweddol mewn rhai achosion) ond mae angen parhau â'r gwaith er mwyn gwireddu uchelgais y Cyngor i fod yn y 10 awdurdod uchaf yng Nghymru erbyn 2016.

99 Adroddodd Estyn am ganlyniad ei ymweliad monitro ym mis Tachwedd 2014, ac mae'r canfyddiadau wedi'u crynhoi ym mharagraffau 100-113 isod.

## Y nifer o bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NEET)

100 Mae'r ganran o bobl ifanc ym mlwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant wedi gostwng ers arolwg 2012, o 5.6 y cant yn 2011, cynnydd bychan i 6.2 y cant yn 2012 a gostyngiad o 1.9 y cant yn 2013. Mae hyn wedi symud yr awdurdod o fod ymysg y gwaethaf yng Nghymru i fod ymysg y gorau yng Nghymru ar y mesur penodol hwn.

101 Mae strategaeth NEET yn cael ei fonitro'n dda ar bob lefel o fewn yr awdurdod lleol. Er enghraifft, mae'r pwyllgor archwilio yn gallu darparu her gadarn i'r datblygiadau yn y strategaeth.

## Presenoldeb a gwaharddiad

102 Mae'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu'n llwyddiannus ynghyd â phartneriaid consortia ac ysgolion i ddarparu gweledigaeth strategol glir i wella presenoldeb a gwaharddiadau. Mae hyn yn cynnwys darparu arweiniad defnyddiol i ysgolion sy'n amlinellu disgwyliadau'r awdurdod lleol ohonynt a'r gwasanaethau sydd ar gael.

103 Yn briodol, mae nifer o ysgolion wedi mabwysiadau dull systematig newydd o reoli presenoldeb. Mae'r awdurdod lleol yn rhoi ystadegau presenoldeb misol i ysgolion ac mae prif athrawon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion yn ymwneud â phresenoldeb yn eu hysgolion. Mae swyddogion lles addysg yn cael eu cynnwys yn gyson mewn cyfarfodydd bugeiliol mewn ysgolion. Maent yn darparu dadansoddiad o ddata perfformiad presenoldeb ysgol ac yn adrodd yn ôl i'r corff llywodraethu. Mae'r awdurdod lleol yn parhau i ddatblygu ei ddefnydd o ddata presenoldeb gyda'i ymgynghorwyr herio ac yn dechrau gwerthuso effaith y gweithgareddau gwahanol sy'n digwydd mewn perthynas â gwella presenoldeb a lleihau gwaharddiadau.

104 Bu gwelliant o un y cant mewn presenoldeb mewn ysgolion cynradd ar gyfer y cyfnod rhwng 2011 a 2014. Mae data heb ei ddilysu yn awgrymu bod presenoldeb 2013-14 wedi gwella 0.6 o bwyntiau canran ychwanegol. Mae cyfradd gwelliant am y cyfnod 2011-2013 yn uwch na Chymru ar y cyfan. Hefyd, symudodd safle Merthyr, o fod y gwaethaf i rif 17. Nid yw'n bosibl gwneud sylw ar gyfradd gwelliant na safle 2013-14 gan nad yw data Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi eto.

105 Mae presenoldeb cyffredinol mewn ysgolion uwchradd wedi gwella o dros hanner pwynt canran yn ystod 2011-2014. Nododd yr awdurdod yn ddiweddar, er bod ysgolion uwchradd yn defnyddio cod presenoldeb sy'n nodi a yw disgyblion yn derbyn addysg i ffwrdd o'r safle, nad oedd hyn yn adlewyrchiad cywir o absenoldeb disgyblion. Mae cywiro hyn wedi cyfrannu at gwymp ym mhresenoldeb ysgolion uwchradd o 0.4 o bwyntiau canran i 92.9 y cant (2013-14). O ganlyniad mae safle'r awdurdod wedi disgyn o 4 i 19.

106 Mae nifer y disgyblion sy'n absennol o ysgolion cynradd ac uwchradd yn rheolaidd wedi gostwng yn sylweddol. Fodd bynnag, ar lefel uwchradd mae'r rhain yn parhau i fod yn rhy uchel, a hynny rhywfaint o dan chwarter yr holl absenoldebau.

107 Mae cynnydd sylweddol wedi bod yn nifer y gwaharddiadau tymor penodol ar lefel ysgol gynradd (2011-2013). Mae nifer o'r rhain wedi digwydd mewn ysgol benodol ac mae'r awdurdod wedi ymateb gan ddarparu cefnogaeth briodol i'r ysgol.

108 Yn hanesyddol, nifer isel o waharddiadau parhaol o ysgolion sydd wedi bod ym Merthyr, ac mae hyn yn parhau i fod yr un fath. Mae'r defnydd o waharddiad tymor penodol mewn ysgolion uwchradd wedi lleihau'n sylweddol. Mae'r gyfradd gwella yn y ddau fesur gwaharddiad tymor penodol yn well na'r cynnydd yng Nghymru ar y cyfan. O ganlyniad, mae safle Merthyr wedi gwella o 18 i 12 ar gyfer y ddau fesur (2011-2013).

109 Mae'r nifer cyffredinol o ddyddiau a gollir oherwydd gwaharddiad mewn ysgolion uwchradd wedi gostwng ond yn parhau ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r gyfradd gwella'n well na chyfartaledd Cymru.

## Gwasanaethau Cefnogi Ieuenctid

110 Mae'r awdurdod a'i bartneriaid wedi diwygio ei drefniadau partneriaeth a'r mecanweithiau eang ar gyfer rheoli, cydlynu ac adrodd am faterion yn ymwneud â gwasanaethau cefnogi ieuenctid.

111 Rhan allweddol o'r trefniadau newydd hyn yw'r grŵp llywio gwasanaethau cefnogi pobl ifanc. Mae'r grŵp llywio wedi cynhyrchu dadansoddiad anghenion cynhwysfawr sy'n cysylltu'n uniongyrchol â Chynllun Integredig Sengl eang y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (LSB). Nododd y grŵp llywio fylchau yn y ddarpariaeth yn sydyn a gweld bod gan bobl ifanc wybodaeth gyfyngedig am yr hyn sydd ar gael, a bod y ddarpariaeth bresennol yn cael ei thanddefnyddio. Hefyd, dangosodd yr ymchwil nad oedd darpariaeth gwaith ieuenctid Cymraeg ar gael. Yn ogystal â hynny, roedd mynediad at wasanaethau cefnogi iechyd meddwl i bobl ifanc yn wael, ac ychydig iawn bobl ifanc Merthyr Tydfil, neu ddim o gwbl, oedd yn defnyddio gwasanaeth camddefnyddio sylweddau yn yr ardal. Cymerodd y grŵp llywio gamau priodol yn sydyn i roi camau gweithredu ar waith i roi sylw i bob un o'r rhain.

112 Er bod rhoi sylw i’r bylchau hyn yn briodol, nid yw’r grŵp llywio wedi cynnal dadansoddiad manwl o’r holl wybodaeth sydd ganddo er mwyn sefydlu cynllun strategol. Heb y dadansoddiad hwn, nid yw’r grŵp llywio’n gallu defnyddio’r wybodaeth sydd ganddo i gyfeirio ffynonellau’n well tuag at y bobl ifanc sydd â’r angen mwyaf.

113 Mae’r grŵp llywio a swyddogion yr awdurdod lleol yn adrodd yn ôl i amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar gynnydd a wnaed o ran bodloni’r argymhelliad hwn. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae adroddiadau cynnydd yn ailadrodd negeseuon blaenorol ac nid ydynt yn nodi’n glir beth sydd wedi digwydd ers yr adroddiad diwethaf. Mae’r adroddiadau hyn hefyd yn canolbwyntio gormod ar fesur cynnydd yn erbyn camau gweithredu wedi’u diffinio, a does dim digon o ffocws ar asesu a yw’r camau gweithredu hyn yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ifanc. Mae hyn oherwydd nad yw’r awdurdod lleol a’i bartneriaid wedi rhoi meini prawf y cytunwyd arnynt ar waith eto i werthuso effaith y gwasanaethau hyn. Felly, mae cynnydd sylweddol o hyd i’w wneud er mwyn cyflawni’r argymhelliad hwn yn llawn.

## Yn 2013-14, y gwariant ar wasanaethau cymdeithasol (fesul pen o’r boblogaeth) ym Merthyr Tydfil oedd y trydydd uchaf yng Nghymru, ond mae’r Cyngor yn cydnabod bod yr heriau cymdeithasol mae’n eu wynebu a chanlyniadau cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn fuan yn mynd i alw am newid ar bob lefel

114 Cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ei **Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2013-14** ym mis Hydref 2014 ac mae hwn ar gael ar y wefan: www.cssiw.org.uk. Mae canfyddiadau’r AGGCC wedi’u crynhoi ym mharagraffau 115-118 isod.

115 Gwariant y Cyngor ar wasanaethau cymdeithasol (fesul pen o’r boblogaeth) yw’r trydydd uchaf yng Nghymru, sy’n cadarnhau’r flaenoriaeth mae’r Cyngor yn ei roi i bobl sydd angen cefnogaeth. Yn unol â’r amcanion a nodwyd yng Nghynllun Integredig Sengl (SIP) 2013-2017, mae’r Cyngor yn bwriadu cynnig dewis ac annog dinasyddion i reoli penderfyniadau sy’n effeithio arnynt. Ers 2012 mae lleihad graddol wedi bod yn y nifer y bobl dros 65 mlwydd oed sy’n derbyn gwasanaethau preswyl ac yn y gymuned am bob 1,000 o’r boblogaeth. Bwriad tymor hir y Cyngor yw datblygu mwy o wasanaethau ataliol, gan weithio gyda phartneriaid y trydydd sector i uchafu’r mynediad at fuddsoddiad o ffynonellau ariannu eraill.

116 Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr yn darparu cofnod cywir a didwyll o berfformiad y Cyngor. Er ei fod yn dathlu cyflawniadau’r Cyngor, mae hefyd yn cydnabod yn agored y penderfyniad anodd sydd yn wynebu’r Cyngor yn 2014-15, sy’n cynnwys gorfod torri rhai gwasanaethau ac y bydd hynny’n cael effaith ar bobl sy’n derbyn y gwasanaethau. Mae hefyd yn cydnabod yr heriau ariannol parhaus sy’n wynebu’r Cyngor a chanlyniadau cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014 yn fuan, a fydd yn arwain at newidiadau ar bob lefel.

117 Cofnododd AGGCC nifer o gyflawniadau, a dyfynnodd, fel enghreifftiau penodol o gynnydd, bod y Cyngor:

a wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i ail-lunio'r asesiad ymateb cyntaf a'r gwasanaethau rheoli gofal er mwyn galluogi ffocws gwell ar ymyraethau tymor byr;

b wedi darparu gwasanaeth gofal cartref mewnol o safon dda, datblygu cyfleuster gofal newydd ychwanegol yn Nhŷ Cwm, ac agor dau gartref gofal newydd i gynnig llety i bobl hŷn gydag amrywiaeth eang o anghenion;

c wedi datblygu'r gwasanaeth Plant Mewn Angen i gefnogi teuluoedd ar sail amlasiantaethol;

ch datblygu gwefan Cymorth Aml-ymyrraeth (MIA) a fydd yn darparu ystod o wybodaeth ac arweiniad i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol, ac mae ganddo systemau da ar waith ar gyfer gweithio mewn partneriaeth yn strategol gan gynnwys y Panel Atal a Pharhad Amlasiantaethol a'r Panel Lleoliad Amlasiantaethol yn ogystal â gwella gwasanaethau maethu ar y cyfan; ac

d fel awdurdod arloesol, wedi bod yn rhan o gynllun Llywodraeth Cymru Pan Fydda i'n Barod.

118 Nododd AGGCC rai meysydd i'w gwella hefyd ac awgrymodd y dylai'r Cyngor:

a roi sylw pellach i ddatblygu gwasanaethau arbenigol dementia a gwella perfformiad mewn perthynas â'r adolygiadau a wnaed yng ngwasanaethau oedolion;

b gweithio gyda chydweithwyr iechyd i wella mynediad at wasanaethau CAMHS fel bod anghenion therapiwtig yn cael eu bodloni mewn modd amserol;

c atgyfnerthu dulliau monitro comisiynu a chontractio yng ngwasanaethau plant ac oedolion, a rhoi'r strategaeth recriwtio a marchnata ar waith yn benodol mewn perthynas â gofalwyr maeth sydd a'r sgiliau i ddiogelu plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth a'r ymddygiadau mwyaf heriol; a

ch pharhau i ganolbwyntio ar gyflwyno canlyniadau mewn gwasanaethau plant ac oedolion.

119 Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2015, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad yn diweddaru'r cynnydd yn erbyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Mewn perthynas â'i flaenoriaeth i Hyrwyddo Annibyniaeth, mae gwerthusiad presennol y Cyngor o'r canlyniad hwn yn dda. Mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi nodi ei fod yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'r dangosyddion yn uwch na chanolrif Cymru. Mae hefyd wedi nodi arwydd cychwynnol o welliant i'r boblogaeth oedolion sy'n gallu byw'n annibynnol, a chanran eithaf sefydlog sydd angen cefnogaeth gan ofal preswyl.

120 Fodd bynnag, mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod asesiadau o ofalwyr oedolion wedi gostwng yn sylweddol yn ystod 2014/15. Mae asesiadau a chefnogaeth gofalwyr yn elfen bwysig o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, ac mae'r Cyngor yn gweithio i sefydlu'r rhesymau dros ofalwyr yn gwrthod asesiad.

## Nid yw'r Cyngor wedi bodloni'r targedau cenedlaethol ar gyfer ailgylchu eto, ond yn dilyn derbyn grant gan Lywodraeth Cymru mae'n peilota ffordd wahanol o gasglu gwastraff

121 Nid yw'r Cyngor wedi bod yn llwyddiannus eto wrth gyflawni'r targed o 52 y cant o wastraff yn cael ei ailddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio. Gosodwyd y Cyngor olaf yng Nghymru gan ennill dim ond 47.3 y cant am y mesur hwn. Roedd gwasanaeth y Cyngor yn wael ar gyfer yr holl fesurau'n ymwneud â gwastraff. Gallai perfformiad gwael parhaol a methu â bodloni'r targedau cenedlaethol ar gyfer gwastraff arwain at gosbi'r Cyngor yn ariannol.

122 Mae'r Cyngor yn bryderus bod cyfranogiad y cyhoedd wrth ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio yn is nag y gallai fod. Mae Wardeniaid Gwastraff ac Ailgylchu wedi bod yn gweithio ar draws y Sir i godi ymwybyddiaeth ac annog ailgylchu gymaint â phosibl.

123 Mae'r Cyngor wedi derbyn Grant Llywodraeth Cymru i gynnal cynllun peilot i newid o gasglu gwastraff ailgylchu cymysg ar ochr y ffordd i fodel sydd wedi'i rannu lle mae perchennog y tŷ yn rhannu'r gwastraff i gategorïau gwahanol. Yna, mae'r gwastraff wedi'i rannu yn cael ei gasglu gan loriau wedi'u haddasu gyda chydrannau ar wahân i bob math o wastraff. Unwaith y bydd y Cyngor yn gwybod canlyniadau'r cynllun peilot, bydd yn penderfynu beth yw'r cam gorau i'w gymryd.

## Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd amgylcheddol ar lefel sy'n uwch na'r lefel isaf ond mae'r cyfnod presennol o gynni ariannol yn her o ran derbyn dyletswyddau statudol newydd sy'n gwarchod y cyhoedd a'r amgylchedd

124 Rhwng mis Tachwedd 2013 ac Ebrill 2014, cyflawnwyd adolygiad ymhob cyngor gan edrych ar sut maent yn llwyddo i ddarparu gyda llai. Roedd yr adolygiad yn ystyried effaith toriadau'r ffynonellau ar allu gwasanaethau iechyd amgylcheddol y cyngor i gyflawni eu rhwymedigaethau statudol.

125 Roedd yr adroddiad cenedlaethol, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2013 yn cynnwys pum argymhelliad perthnasol i bob Cyngor yng Nghymru ac mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad 6.

126 Mae'r gwasanaethau iechyd amgylcheddol yn rhoi sylw i asesu, rheoli ac atal y ffactorau yn yr amgylchedd sy'n gallu effeithio ar iechyd dynol yn andwyol. Maent yn rhoi sylw i amrywiaeth o faterion sy'n ennyn pryder gan y cyhoedd, megis diogelwch bwyd, rheoli haint, baeddu cŵn, a llygredd sŵn. Mae cyfrifoldebau'r Cyngor yn cynnwys: asesu ansawdd y cartrefi lle mae pobl yn byw; asesu diogelwch y lleoedd mae pobl yn gweithio ynddynt; gwirio hylendid y lleoedd mae

pobl yn bwyta ynddynt a lle mae bwyd yn cael ei gynhyrchu; lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer; delio gyda phroblemau sy'n codi o ganlyniad i sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol; a rheoli haint a chŵn.

127 Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd amgylcheddol ar lefelau sy'n uwch na'r lefel gofynnol ac, er ei fod wedi cynyddu gwariant a lleihau ychydig ar nifer y staff, mae gan randdeiliaid farn gymysg am reolaeth a pherfformiad y gwasanaeth. Bydd y Cyngor yn ei chael yn anodd cymryd dyletswyddau statudol newydd sy'n gwarchod y  cyhoedd a'r amgylchedd.

128 Yn benodol:

- a nid yw gwario'n cael ei warchod yn ystod cyfnod presennol y cynni ariannol, sy'n ei gwneud yn anoddach i gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol;
- b mae'r Cyngor yn darparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd amgylcheddol ar lefel sy'n uwch na'r lefelau gofynnol, fel a fernir yn erbyn Safonau Arferion Gorau;
- c ers 2011-12 mae'r Cyngor wedi cynyddu ei gyllideb gyffredinol ar gyfer iechyd amgylcheddol, er bod nifer y staff wedi disgyn rhywfaint;
- ch mae gan y rhai a ymatebodd i arolwg staff farn wahanol am safon bresennol y gwasanaethau iechyd amgylcheddol ac mae ymwybyddiaeth isel o berfformiad cyfredol neu gynlluniau'r dyfodol ymysg dinasyddion; ac
- d mae dyletswyddau statudol iechyd amgylcheddol yn cael eu cyflwyno, a bydd y Cyngor yn ei gweld yn anodd cyflawni'r rhain.

## Er bod y perfformiad cyffredinol o'i gymharu â'r dangosyddion cenedlaethol wedi gwella, ni chyrhaeddodd y Cyngor y nod o gyrraedd ei dargedau ac mae'n adrodd am gynnydd cymysg wrth geisio cyflawni'r amcanion gwella

129 Gosododd y Cyngor uchelgais o wella safle chwartel y rhan fwyaf o'i ddangosyddion strategol cenedlaethol, gyda phwyslais penodol ar leihau'r nifer o ddangosyddion lle mae'r perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru. Gwellodd y Cyngor ei berfformiad ar 17 o'r 30 dangosydd strategol cenedlaethol, tra bu iddo lithro mewn naw. Ar y cyfan, mae'r Cyngor wedi lleihau'r nifer o ddangosyddion strategol cenedlaethol oedd yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru o 18 i 14, gan gynyddu'r nifer sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 12 i 16. Nid oes un gwasanaeth penodol yn gyfrifol am y newidiadau hyn gan fod gan yr holl feysydd ddangosyddion perfformiad sy'n gwella neu'n gostwng.

130 Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cymru yn cynnal arolwg cenedlaethol i gael barn pobl Cymru am ystod o faterion gan gynnwys iechyd, addysg a gwasanaethau lleol. Yn arolwg 2013-14, cytunodd 53 y cant o atebwyr bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel. Roedd hyn yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru gan osod y Cyngor yn safle 16eg ymysg 22 awdurdod unedol yng Nghymru. Dangosodd yr un arolwg mai dim ond 36 y cant o breswylwyr oedd hefyd yn meddwl bod y Cyngor yn dda am adael iddynt wybod sut y maent yn perfformio.

131 Mae Fframwaith Gwella Gwasanaethau newydd y Cyngor a nodwyd uchod yn darparu set ehangach o fesuriadau a dadansoddiad gwell o wybodaeth, gan alluogi'r Cyngor i osod ffenestri mwy craff yn lle targedau, ac i ragamcanu perfformiad yn y dyfodol gan ystyried gwybodaeth am berfformiad cymharol a hanesyddol. Bydd sail y dystiolaeth, unwaith y bydd wedi ei sefydlu, yn darparu'r cyd-destun i'r Cyngor allu cynllunio a monitro ei berfformiad yn well.

132 Yn ei gyfarfod ar 25 Mawrth 2015, cymeradwyodd y Cabinet adroddiad yn darparu'r diweddaraf ar gynnydd a wnaed wrth gyflwyno'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Yn gryno, mae gwerthusiad presennol y Cyngor o gynnydd mewn perthynas â'r saith maes blaenoriaeth fel a ganlyn:

a Da: Cyflogadwyedd, a Hyrwyddo Annibyniaeth

b Boddhaol: Ffyrdd Egnïol o Fyw, yr Amgylchedd Cynaliadwy a Bodloni Anghenion Plant sy'n Agored i Niwed

c Anfoddhaol: Codi Safonau Cyrhaeddiad a Datblygiad Economaidd

## Mae'r Cyngor wedi cymryd camau cadarnhaol tuag at fabwysiadu Datganiad Iaith Gymraeg a datblygu cynllun gweithredu newydd i wella cydymffurfiaeth â Chynllun yr Iaith Gymraeg

133 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi dweud wrthym fod y Cyngor wedi gweithredu'r holl argymhellion oedd yn weddill o ymchwiliad statudol a gynhaliwyd yn 2012/13 i weithredu cynllun iaith Gymraeg trwy sefydlu pwyllgor mewnol i oruchwylio gweithrediad y cynllun, a thrwy fabwysiadu strategaeth sgiliau'r iaith Gymraeg. Dylai rhoi'r strategaeth ar waith fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn awr.

134 Mae'r Cyngor hefyd wedi mabwysiadu Datganiad Iaith Gymraeg a chynllun gweithredu newydd i wella cydymffurfiaeth â Chynllun yr Iaith Gymraeg. Mae cynnwys Cymraeg yn parhau i gael ei ychwanegu ar y wefan, gyda gweithdrefnau ar waith er mwyn sicrhau bod bob tudalen newydd ar y we'n cael ei chyhoeddi'n ddwyieithog.

135 Mae nifer eithaf bach o staff yn mynychu gwersi iaith Cymraeg wedi'u strwythuro. Roedd cynnydd yn y nifer a dderbyniodd hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith, o ganlyniad i gyflwyno modiwl e-ddysgu a ddatblygwyd ar y cyd gan y Cyngor a thri Chyngor arall yng Nghymru.

## Gallai hanes y Cyngor a'i gapasiti a'i allu liniaru effeithiolrwydd ei drefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn 2015-16

136 Yn y rhan olaf hon o'r adroddiad, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi ei farn ar y tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaol yn y flwyddyn sydd i ddod, yn unol â gofynion y Mesur.

137 Yn seiliedig ar y canfyddiadau a nodwyd yn yr adroddiad hwn ac yn arbennig felly'r dystiolaeth:

- a bod cynnydd y Cyngor tuag at gyflawni'r canlyniadau a fwriedir yn parhau'n amrywiol;
- b bod y Cyngor yn parhau i ddelio â heriau gwasanaeth a heriau ariannol sylweddol gan fanteisio ar gefnogaeth allanol;
- c bod y Cyngor wedi cymryd camau sylweddol ymlaen mewn perthynas â defnyddio'i adnoddau, ond mae angen iddo sicrhau fod ganddo'r capasiti a'r gallu digonol i wynebu'r heriau sydd i ddod; ac
- ch mae'r Archwilydd Cyffredinol yn casglu y gallai record y Cyngor a'i gapasiti a'i allu i liniaru effeithiolrwydd ei drefniadau i sicrhau gwelliant parhaol ar gyfer 2015-16.

138 Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi ystyriaeth benodol i botensial cadarnhaol rhaglen newid ddiwylliannol y Cyngor a datblygu Fframwaith Gwella Gwasanaethau.

139 Hoffwn ddiolch i staff y Cyngor ac aelodau etholedig am eu cymorth yn ystod yr Asesiad Corfforaethol hwn.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad o welliant blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a Pricewaterhouse Coopers ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 y Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad o welliant dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni [eu] swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad o welliant blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad o welliant yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol ar ba mor debygol yw awdurdod o gydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran24).

O dan rai amgylchiadau gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdodau a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith cyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil 2014-15

## Tystysgrif

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil yn unol ag adran 17 Mesur y Llywodraeth Leol 2009 (Cymru) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'r archwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Cyfrifoldebau perthnasol y Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae disgwyl i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni dyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwella parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau ei fod yn cyflawni ei amcanion gwella; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel ei fod yn bodloni unrhyw safon perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a allai Gweinidogion Cymru ei bennu.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth sydd ynddo. Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor ystyried y canllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, er mwyn tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd p'un ai y credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a osodwyd yn adran 15 y canllaw statudol.

## Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion y gwaith archwilio derbyniaf ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau, cyn belled bod awdurdod wedi bodloni ei ofynion statudol.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid oes disgwyl i mi ddod i gasgliad ar gyflawnrwydd neu gywirdeb y wybodaeth, neu p'un ai yw'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor wedi'i gyflawni. Bydd gwaith asesu pellach y byddaf yn ymgymryd ag o o dan adran 18 y Mesur yn archwilio'r materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod p'un ai a yw'n cynnwys yr elfennau a bennwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd p'un ai a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi yn cydymffurfio a gofynion y ddeddfwriaeth, a bod y Cyngor yn ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chynllunio ei gynllun.

Ni ellir dibynnu'n llwyr ar y gwaith yr wyf wedi'i gynnal er mwyn adrodd a gwneud awgrymiadau yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur i ganfod gwendidau neu gyfleoedd i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw awgrymiadau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Lesley Griffiths, Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Colin Davies, Rheolwr
Justine Morgan, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil o berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil o berfformiad 2013-14 yn unol ag adran 17 Mesur Llywodraeth (Cymru) Leol 2009 a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'r archwiliad, credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) y Mesur ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Cyfrifoldebau perthnasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae disgwyl i'r Cyngor gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio perfformiad:

- wrth gyflawni dyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwella parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth fodloni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- o'i gymharu â'r dangosyddion perfformiad a nodwyd gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad y mae wedi'u gosod ei hun; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformio a nodwyd gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad y mae wedi'u gosod ei hun.

Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un mae'r wybodaeth yn berthnasol iddi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai Gweinidogion Cymru ei bennu. Mae'r Mesur yn gofyn i'r Cyngor ystyried y canllawiau a roddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i gynnal archwiliad i bennu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, er mwyn tystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd p'un ai y credaf fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a osodwyd yn adran 15 y canllaw statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion y gwaith archwilio derbyniaf ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau, cyn belled bod awdurdod wedi bodloni ei ofynion statudol.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid oes disgwyl i mi ddod i gasgliad ar gyflawnrwydd neu gywirdeb y wybodaeth. Bydd gwaith asesu pellach y byddaf yn ymgymryd ag o dan adran 18 y Mesur yn archwilio'r materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o berfformiad yn cynnwys adolygiad o gyhoeddiad y Cyngor i bennu a yw'n cynnwys yr elfennau a bennwyd mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd p'un ai a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi yr asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod y Cyngor yn ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chynllunio ei gynllun.

Ni ellir dibynnu'n llwyr ar y gwaith yr wyf wedi'i gynnal er mwyn adrodd a gwneud awgrymiadau yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur i ganfod gwendidau neu gyfleoedd i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw awgrymiadau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Leighton Andrews, Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Colin Davies, Rheolwr
Justine Morgan, Swyddog Arweiniol Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil 2013-14

Y Cynghorydd Brendan Toomey
Arweinydd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil
Swyddfeydd y Cyngor
Stryd y Castell, Merthyr Tydfil,
CF47 8AN

Annwyl Brendan,

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad o Gyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 26 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae adroddiad yr Archwilydd Penodedig wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 22 Medi 2014.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod archwiliad y cyfrifon wedi'i gyflawni ar 26 Medi 2014. Rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau cynildeb, effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'i brofi eto neu ble y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol. Hoffwn dynnu sylw at y meysydd penodol canlynol yn y llythyr hwn:

- Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer y Cyngor yn parhau i fod yn her, ac mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr i nodi arbedion effeithlonrwydd er mwyn pontio'r bwlch cyllido a nodwyd gan ei broses cynllunio tymor canolig.
- Mae'r Cyngor wedi rhoi mesurau newydd ar waith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i gynorthwyo'r broses, gan gynnwys creu Bwrdd Trawsnewid a Bwrdd Cyllideb. Bwriad y rhain yw herio rheolwyr i ganfod ffyrdd mwy effeithiol o weithio a'u dal yn atebol am gyflawni arbedion arfaethedig.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o safle ariannol y Cyngor; ar hyn o bryd mae'r ymgynghorwyr yn ymweld â'r Cyngor i ddilyn trywydd yr argymhellion a godwyd o ganlyniad i'r adolygiad.

## Nid yw fy ngwaith hyd eto ar ardystiad ceisiadau a derbyniadau grant wedi canfod unrhyw faterion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 neu systemau ariannol allweddol.

Cadarnhaodd fy adroddiad grant blynyddol ar gyfer 2012-13 bod 30 o geisiadau grant wedi'u hardystio gan PwC. O blith y rheini roedd 15 yn ddiamod heb eu diwygio, roedd pump yn ddiamod gyda rhai diwygiadau i'r ffigurau terfynol, roedd angen amodi chwech heb unrhyw ddiwygiad ac roedd y pedwar arall yn ddiamod gyda rhai diwygiadau i'r ffigurau terfynol.

Bydd adroddiad manwl ar fy ngwaith ardystio grantiau ar gyfer 2013-14 yn dilyn ym mis Mawrth 2015 unwaith y bydd rhaglen ardystio wedi'i gyflawni.

Disgwylir i'r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fod yn unol â'r ffi a gytunwyd ac a nodwyd yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

Kevin Williams (PwC)
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

Anthony Barrett
**Archwilydd Penodedig**

# Atodiad 5 – Arolwg o Uwch Reolwyr

Gellir gweld arwydd o'r cynnydd mae'r Cyngor yn ei wneud ar ei daith datblygu diwylliant yn arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o uwch reolwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil a wnaed fel rhan o'r Asesiad Corfforaethol llawn. Derbyniwyd 83 o ymatebion allan o 103 posibl sy'n cynrychioli cyfradd ymateb o 81 y cant; wedi'i dorri lawr i chwech allan o wyth (75 y cant) o'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) a 77 allan o 95 (81 y cant) o reolwyr yn is na'r TRhC.

O ran eglurder ynghylch canlyniadau'r Cyngor a'r hyn mae'n ceisio ei gyflawni, mae'r stori'n un gadarnhaol:

- Atebodd 92.8 y cant o ymatebwyr yn gadarnhaol i'r datganiad "Rwy'n glir am y canlyniadau mae'r Cyngor yn ceisio eu cyflawni" (Mae 63.9 y cant yn 'Cytuno' a 28.9 y cant yn 'Anghytuno'n Gryf').
- Mae 85.6 y cant naill ai'n 'Cytuno' (69.9 y cant) neu'n 'Anghytuno'n Gryf' (15.7 y cant) gyda'r datganiad bod "Cyflawni canlyniadau dymunol wedi'i integreiddio i gynllun y gwasanaeth".
- Dewisodd 74.7 y cant o ymatebwyr i 'Gytuno' (57.8 y cant) neu' 'Anghytuno'n Gryf' (16.9 y cant) gyda'r datganiad oedd yn dweud "Mae rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer y Prif Weithredwr".
- Mae 97.6 y cant yn "Glir ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau yn y Cyngor" (50.6 y cant yn 'Cytuno' a 47.0 y cant yn 'Anghytuno'n Gryf').

Fodd bynnag, nid yw'r stori ynglŷn â system gwerthuso'r Cyngor mor gadarnhaol:

- Mae 47 y cant o ymatebwyr yn 'Cytuno'n Gryf' (1.2 y cant) neu'n 'Cytuno' (45 y cant) gyda'r datganiad "Mae system werthuso ffurfiol y cyngor yn sicrhau bod gan uwch reolwyr y sgil priodol ar gyfer eu swydd" gyda 38.5 y cant yn anghytuno (31.3 y cant yn 'Anghytuno' a 7.2 y cant yn 'Anghytuno'n Gryf'). Roedd 14.5 y cant o'r bobl yn y categori 'Ddim yn Gwybod'.
- Yn ddiddorol, mae gwahaniaeth amlwg mewn barn rhwng y CMT (lle mae 100.0 y cant o ymatebwyr yn disgyn i'r categori 'Cytuno') a'r rheolwyr o dan y CMT. Cytunodd 42.9 y cant o reolwr o dan CMT (1.3 y cant yn 'Anghytuno'n Gryf' a 41.6 y cant yn 'Cytuno'), tra bod 41.6 y cant yn anghytuno (33.8 y cant yn 'Anghytuno' a 7.8 y cant yn 'Anghytuno'n Gryf'). Roedd 15.6 y cant o reolwyr o dan CMT yn y categori 'Ddim yn Gwybod'. Gallai'r gwahaniaeth rhwng CMT a rheolwyr o dan CMT adlewyrchu'r ffaith nad yw'r broses werthuso 1-i-1 newydd heb raeadru trwy'r sefydliad neu heb fod yn destun digon o hyfforddiant eto. Mae'r safbwynt hwn wedi'i gefnogi gan nifer o sylwadau goddrychol a gasglwyd fel rhan o'r broses arolwg:
  - "Er nad ydy'r system gwerthuso yn ei lle eto i sicrhau sgiliau ac eglurder blaenoriaethau, mae system newydd wedi'i chyflwyno sy'n welliant sylweddol ar yr un blaenorol."
  - "Mae gwerthusiadau'n cael eu cynnal ond nid oes hyfforddant wedi'i ddarparu i reolwyr sy'n cynnal gwerthusiadau."

– “Mae’r system werthuso ffurfiol yn ei fabandod ac mae datblygiad arweinyddiaeth yn cael ei ystyried. Felly, mi fydd yn cymryd amser cyn i’r ddau gyflawni’r canlyniadau a ddymunir.”

- Mae 70.7 y cant o ymatebwyr naill ai’n ‘Cytuno’ (64.6 y cant) neu’n ‘Anghytuno’n Gryf’ gyda’r datganiad “Rwyf yn defnyddio’r system werthuso ffurfiol i sicrhau bod gan fy nhîm y sgiliau priodol” gyda 26.8 y cant yn anghytuno (25.6 y cant yn ‘Anghytuno’ a 1.2 y cant yn ‘Anghytuno’n Gryf’) gyda 2.4 y cant yn y categori ‘Ddim yn Gwybod’.
- Unwaith eto, mae rhaniad rhwng CMT a’r rheolwyr hynny o dan CMT. Mae 100.0 y cant o ymatebion y CMT yn y categori ‘Cytuno’. Cytunodd 68.4 y cant o reolwyr o dan CMT (61.8 y cant yn ‘Cytuno’ a 6.6 y cant yn ‘Cytuno’n Gryf’) gyda 28.9 y cant yn anghytuno (27.6 y cant yn ‘Anghytuno’ a 1.3 y cant yn ‘Anghytuno’n Gryf’).

# Atodiad 6 – Awgrymiadau adroddiad Cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr Adroddiad | Teitl yr arolwg | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl yr aelodau gweithredol a'r uwch swyddogion wrth gyfrannu at yr archwiliad. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, a chadeiryddion craffu yn benodol, yn derbyn hyfforddiant a chefnogaeth er mwyn rhoi'r sgiliau angenrheidiol iddynt i ymgymryd â chraffu'n effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu mwy ar raglen gwaith archwilio i:<br>• ddarparu rhesymeg glir ar gyfer dewis testun;<br>• ffocysu'n fwy ar y canlyniad;<br>• sicrhau bod y dull o archwilio yn addas i'r maes testun a'r canlyniad a ddymunir; ac<br>• alinio rhaglenni archwilio gyda threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r Cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod y craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau'n ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A6 | Sicrhau bod effaith yr archwiliad yn cael ei werthuso'n briodol a'i roi ar waith i wella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys dilyn trywydd camau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A7 | Ymgymryd â hunanwerthusiad rheolaidd o'r craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trosolwg a chraffu llywodraeth leol effeithiol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A8 | Sefydlu cynlluniau gweithredu i wella'r broses o graffu ar waith a ddatblygwyd o astudiaeth Swyddog Archwilio Cymru ar wella. |
| | | A9 | Mabwysiadau 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd i wella'r ffordd mae craffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliiad. |

| Dyddiad yr Adroddiad | Teitl yr arolwg | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant - Canfyddiadau o adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu gwariant ar wasanaethau NEET i ddeall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflwyno'r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol i leihau'r ganran o bobl ifanc 19 i 24 mlwydd oedd sydd ar NEET yn ogystal â'u dull ar gyfer pobl ifanc 16 i 18 mlwydd oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc gyda rhwystr neu fwy nag un rhwystr i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na'r rhai hynny sy'n fwy tebygol o ail-ymgysylltu heb gefnogaeth ychwanegol sylweddol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a'u targedau i leihau'r nifer o bobl ifanc NEET fel y gallent fod yn atebol a bod eu gwaith yn alinio â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llawn bod gan gynghorau gyfrifoldeb clir dros arwain a chydlynu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 mlwydd oed. |
| | | A6 | Gwella'r gwerthusiad o effeithiolrwydd a gwerth am arian perthnasol y gwasanaethau a'r ymyraethau yn y maes y maent yn bwriadu lleihau'r ganran o bobl ifanc sydd yn NEET. |

<table>
<tr><th>Dyddiad yr Adroddiad</th><th>Teitl yr arolwg</th><th colspan="2">Argymhelliad</th></tr>
<tr><td rowspan="5">Hydref 2014</td><td rowspan="5">Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion</td><td>A1</td><td>Adolygu’r safonau ymarfer gorau i:<br>• alinio gwaith iechyd amgylcheddol gyda blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• adnabod cyfraniad ehangach iechyd amgylcheddol wrth gyflwyno blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• chanfod mantais ac effaith gwasanaethau iechyd amgylcheddol ar warchod dinasyddion.</td></tr>
<tr><td>A2</td><td>Darparu cadeiryddion ac aelodau craffu gyda’r sgiliau angenrheidiol a chefnogaeth i graffu’n effeithiol a herio perfformiad gwasanaeth, cynlluniau arbedion ac effaith lleihau cyllideb.</td></tr>
<tr><td>A3</td><td>Gwella ymgysylltiad â’r preswylwyr lleol ynglŷn â thoriadau sydd wedi’u cynllunio i’r gyllideb a newidiadau mewn gwasanaeth drwy:<br>• ymgynghori a phreswylwyr ar newidiadau a fwriadwyd mewn gwasanaethau a defnyddio’r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau sydd i’w torri a sut fyddai’r toriadau hyn yn effeithio ar breswylwyr; a<br>• gosod cynlluniau ar gyfer cynyddu costau neu wella safonau gwasanaeth.</td></tr>
<tr><td>A4</td><td>Gwella effeithiolrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Ganfod dyletswyddau statudol a heb fod yn statudol gwasanaethau iechyd amgylcheddol y cyngor.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd amgylcheddol ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflwyno’r rhain.<br>• Pennu ‘safon dderbyniol o berfformiad’ ar gyfer gwasanaethau iechyd amgylcheddol (uchaf ac isaf) a chyhoeddi’r rhain i’r cyhoedd.<br>• Gwella effeithiolrwydd a chynnal perfformiad i’r lefel y cytunwyd arni:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill i leihau costau a/neu wella safon;<br>– anfon gwaith yn allanol lle gellir cyflwyno gwasanaethau yn fwy cost effeithiol i’r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu costau a chanolbwyntio ar weithgaredd sy’n creu incwm;<br>– defnyddio grantiau i uchafu effaith a derbyniadau; a<br>– lleihau gweithgareddau i ganolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol.</td></tr>
<tr><td>A5</td><td>Gwella cynllunio strategol trwy:<br>• ganfod, casglu a dadansoddi data ariannol, perfformiad a galw/angen am wasanaethau iechyd amgylcheddol;<br>• dadansoddi data a gasglwyd i fod yn sail i’r berthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’, a deall y berthynas hon, a defnyddio’r wybodaeth hon fel sylfaen i benderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd amgylcheddol y cyngor; a<br>• chytuno ar sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd amgylcheddol yn y dyfodol.</td></tr>
</table>

| Dyddiad yr Adroddiad | Teitl yr arolwg | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella cynllunio strategol a chydlynu gweithgaredd yn well i ddelio ag effaith diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol trwy sicrhau fod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n rhoi sylw i waith pob adran berthnasol y cyngor, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella llywodraethu ac atebolrwydd diwygio lles trwy:<br>• benodi arweinwyr sy'n aelodau a swyddogion i gymryd cyfrifoldeb am arweinyddiaeth strategol ar ddiwygio lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau'n derbyn hyfforddiant digonol a sesiynau briffio rheolaidd ar ddiwygio lles er mwyn gallu herio a chraffu ar berfformiad a phenderfyniadau. |
| | | A3 | Sicrhau rheoli perfformiad effeithiol ar ddiwygio lles trwy:<br>• osod mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i feirniadu cynnydd wrth gyflwyno camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn rhoi sylw i waith yr holl asiantaethau perthnasol a chymdeithasau tai yn benodol; a<br>• sefydlu mesurau i feirniadu effaith ehangach diwygio lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu sut y dylid rheoli risgiau diwygio lles trwy greu dull unigol ar lefel corfforaethol sy'n cydlynu gweithgaredd ar draws y cyngor a gwaith arall i ddarparu sicrwydd digonol bod yr holl gamau gweithredu hanfodol a phriodol i liniaru risgiau yn digwydd. |
| | | A5 | Gwella ymgysylltiad â thenantiaid yr effeithiwyd arnynt drwy ddiddymu cymhorthdal ystafell sbâr trwy:<br>• ddarparu cyngor a gwybodaeth reolaidd ar yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael ag effaith ariannol y newid mewn amgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae eich buddiannau'n newid'; a<br>• darparu cefnogaeth i denantiaid yr effeithiwyd arnynt yn benodol yn dilyn diddymu cymhorthdal ystafell sbâr i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth ranbarthol/cenedlaethol. |

| Dyddiad yr Adroddiad | Teitl yr arolwg | Argymhelliad |
|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A6 Gwella rheolaeth, mynediad a defnydd Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn trwy:<br>• sefydlu polisi clir neu ganllaw sydd ar gael mewn copi caled ac ar-lein i'r cyhoedd sy'n nodi polisi a threfniadau'r Cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio costau tai cymwys a rhai nad yw'n cymwys sy'n gynwysedig yn Nhaliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllawiau ymgeiswyr;<br>• nodi'r cyfnod amser hiraf/byrraf y bydd taliadau o'r fath yn cael eu darparu;<br>• nodi a chyhoeddi amserlen y Cyngor ar gyfer gwneud penderfyniad ar geisiadau Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn llenyddiaeth gyhoeddus ar bolisi'r Cyngor am yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses sydd i'w dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'r grwpiau blaenoriaethol ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn glir mewn llenyddiaeth gyhoeddus i sicrhau bod y rhai hynny sy'n chwilio am gymorth, a'r asiantaethau hynny sy'n eu cefnogi, yn gallu asesu p'un ai yw taliadau o'r fath yn opsiwn ymarferol o ran delio â'u hanghenion tai a'u hanghenion ariannol. |

# Atodiad 7 – Blaenoriaethau strategol a chydweledigaeth Cyngor Merthyr Tydfil a'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol

## OUR SHARED VISION FOR MERTHYR TYDFIL

***"LETS PUT MERTHYR TYDFIL IN THE BEST POSITION FOR THE FUTURE"***

**VISION**

**To strengthen Merthyr Tydfil's position as the regional centre for the Heads of the Valleys, and be a place to be proud of where:**
**People learn and develop skills to fulfil their ambitions,**
**People live, work, have a safe, healthy and fulfilled life,**
**People visit, enjoy and return**


**PRIORITY OUTCOMES**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| People in Merthyr Tydfil have the opportunity and aspiration to learn and develop their skills to maximise their potential. | People in Merthyr Tydfil benefit from a strong, sustainable and diverse economy. | People who live and work in Merthyr Tydfil are supported to enjoy and healthier and better quality of life. | People enjoy a vibrant, attractive, safe and sustainable environment in which to live, work, play and visit. | Underpinning Priority: Learning for Life |


| POLITICAL PERSPECTIVE* | SINGLE INTEGRATED PLAN** | CORPORATE PLAN*** |
|---|---|---|
| **Learning for life.**<br>To improve educational attainment and break the culture of dependency and the cycle of poverty to allow Merthyr Tydfil to grow and prosper | Attainment & Skills<br>Employability<br>Participation | Raising Standards of Attainment<br>Employability |
| **Social and Economic Regeneration.**<br>By creating jobs and encouraging new employers to come to Merthyr Tydfil, whilst retaining existing jobs and helping current employers. | Business Development and Economic Development | Economic Development |
| **Social Care (Adults and Children).**<br>Providing services for vulnerable people is a key function of the local authority. The local authority has public accountability and should be the focus for the provision of these services. | Healthy Lifestyles – Smoking,<br>Healthy Lifestyles – Obesity and Physical Activity,<br>Healthy Lifestyles – Sexual Health<br>Mental Health & Emotional Wellbeing, Promoting Independence, Meeting the Needs of Vulnerable Children | Active Lifestyles<br>Promoting Independence<br>Meeting the needs of Vulnerable Children |
| **Social and Economic Regeneration.**<br>Providing a fit for purpose and sustainable physical environment. Merthyr must be a vibrant and attractive place with first class infrastructure in order to attract people. | Safer Communities,<br>Domestic Abuse & Sexual Violence<br>Substance Misuse,<br>Offender Management,<br>Community Cohesion,<br>Housing Safeguarding Vulnerable People | Sustainable Environment |

# Atodiad 8 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tydfil


## Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





## Cyfanswm Incwm a Gwariant




## Nifer y staff sy'n cyfateb i weithio oriau llawn amser 2010-11 i 2012-13




## Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru